Our Vale • Ein Bro
Vale of Glamorgan Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

BRO MORGANNWG

## BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

# CYNLLUN LLESIANT

# 2023-2028



# RHAGAIR

Dyma ail Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) y Fro ac mae'n esbonio ffocws y BGC dros y pum mlynedd nesaf.

Yn y Cynllun hwn rydym wedi nodi tri Amcan Llesiant a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

**Dyma ein Hamcanion Llesiant:**

- **Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd**
- **Bro sy'n fwy iach ac egnïol**
- **Bro fwy cyfartal a chysylltiedig**



Mae copi o'r Cynllun ar gael yn Saesneg.
A copy of the Plan is available in English.



> “Mae bod yn Gadeirydd ‘Ein Bro’, BGC Bro Morgannwg, yn destun balchder imi. Mae’r Bwrdd yn dod ag ystod o bartneriaid ynghyd i ganolbwyntio ar yr hyn sy’n bwysig i’r Fro, a’r hyn sydd angen i ni ei wneud er budd preswylwyr heddiw, ac er budd cenedlaethau’r dyfodol.”



Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae’r BGC wedi tyfu i fod yn bartneriaeth gref. Daeth y pandemig â llawer o heriau yn ei sgil. Drwy gydweithio ar draws y Fro a rhanbarth ehangach De Cymru rydym wedi dangos yr arloesedd a’r ystwythder a geir ar draws y sector cyhoeddus, pwysigrwydd y trydydd sector ac ysbryd a chydnerthedd ein cymunedau. Byddwn yn adeiladu ar y cryfderau hyn wrth inni fwrw ymlaen â’r ymrwymiadau yn y cynllun hwn a sicrhau ein bod yn bodloni anghenion cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Wrth i ni barhau i dyfu fel partneriaeth mae angen i ni ddechrau canolbwyntio mwy ar feddwl ac ar waith atal hirdymor er mwyn sicrhau’r newidiadau y mae eu hangen i wella lles ar draws y Fro.

Mae’r Cynllun hwn yn adlewyrchu’r cyfnod o her aruthrol rydym yn byw ynddo. Mae ein trigolion, ein busnesau a nifer o sefydliadau trydydd sector a chymunedol yn wynebu ansicrwydd wrth i ni ddelio â’r argyfwng costau byw presennol ac effaith barhaus pandemig COVID-19 a digwyddiadau ledled y byd. Mae llawer ohonom hefyd yn benderfynol o gyflawni newidiadau angenrheidiol yn sgil yr argyfyngau hinsawdd a natur. Wrth wynebu heriau o’r maint hwn mae’n amlwg bod yn rhaid inni weithio mewn partneriaeth a symud ymlaen fel cymuned. Mae’r cynllun hwn yn mynegi ein hymrwymiad fel partneriaid i weithio gyda’n gilydd a gweithredu i wella lles ar draws y Fro ac yn arbennig i fynd i’r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur, lleihau annhegwch a gwneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar.



**Cynghorydd Lis Burnett**
*Cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg*

# CYFLWYNIAD

## Pwy yw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus?


Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro, Ein Bro, yn 2016 ac mae'n dod ag uwch arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar draws Bro Morgannwg, i weithio mewn partneriaeth er mwyn creu dyfodol gwell. Mae'n ddyletswydd ar y BGC i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posib at y nodau llesiant cenedlaethol a gwella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Datblygwyd y cynllun hwn yn unol â'n dyletswyddau o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** sy'n ei gwneud yn ofynnol inni ***"weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau".*** Fodd bynnag, mae'r partneriaid yn cydnabod bod angen inni weithio yn y modd hwn gan fod hynny'n gwneud synnwyr, nid yn unig oherwydd y ddeddfwriaeth. Er mwyn llwyddo i gyflawni ein Hamcanion Llesiant a gwireddu'n gweledigaeth ar gyfer y Fro, mae'r BGC yn cydnabod bod angen inni newid ein dull o weithio, gwrando ar ein preswylwyr ac ar randdeiliaid eraill, a defnyddio tystiolaeth sydd ar gael inni i lywio'r modd rydym yn darparu gwasanaethau lleol, nawr ac i'r dyfodol.

Nod y Ddeddf yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru . Mae'n sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r tymor hir, yn cydweithio'n well â phobl a chymunedau ac â'i gilydd, yn ceisio atal problemau ac yn mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu. Drwy barhau i ymwreiddio'r ffyrdd hyn o weithio gallwn wneud gwahaniaeth.

| | |
|---|---|
| Hirdymor | **Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.** |
| Cynnwys | **Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd a diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.** |
| Integreiddio | **Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.** |
| Cydweithio | **Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.** |
| Atal | **Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyllawni eu hamcanion.** |




Drwy gydweithio, gallwn greu Bro a Chymru y mae pob un ohonom am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn **sefydlu saith nod llesiant cenedlaethol** y mae'n rhaid inni weithio tuag atynt, ac y mae'n rhaid eu hystyried yn fel cyfres integredig. Wrth gyflawni'r Cynllun hwn byddwn yn cyfrannu at bob un o'r nodau.

## Cynllun Llesiant Newydd

Mae'r adran hon o'r Cynllun yn rhoi trosolwg o fanylion allweddol ein Cynllun Llesiant ar gyfer 2023 – 2028. Ceir rhagor o fanylion (ee, sut rydym yn gweithio fel BGC, ein cyflawniadau hyd yma, ein gwaith ymgysylltu ac ymgynghori, ein Hamcanion a sut y byddwn yn eu cyflawni) drwy'r holl Gynllun, ac maent hefyd ar gael isod. Mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn ffurfio ein Cynllun Llesiant.

- **Gwneud Gwahaniaeth**
- **Beth rydym wedi'i gyflawni**
- **Darlun o Fro Morgannwg a'r Heriau Difrifol o'n Blaen**
- **Beth rydych chi wedi'i ddweud wrthym**
- **Ein Hamcanion Llesiant**
- **Cyflawni Ein Hamcanion Llesiant**







Rydym yn ffodus i gael byw ac/neu weithio yn y Fro. Mae gan y Fro asedau sylweddol; mae gennym lefelau cymharol isel o ddiweithdra; mae gennym sector gwirfoddol ffyniannus, ac mae'r Fro yn ardal hardd lle gall preswylwyr ac ymwelwyr werthfawrogi a mwynhau ein tirlun trawiadol. Mae ein hamgylchedd lleol yn bwysig i'n llesiant corfforol a meddyliol, ond hefyd yn bwysig i lesiant economaidd a diwylliannol yr ardal. Fodd bynnag, ceir anghydraddoldeb ar draws y Fro, a materion pwysig y mae angen eu datrys. O fewn y cyd-destun hwn y gosododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer Bro Morgannwg yn 2050 yn ein Cynllun Lles cyntaf, gan ddangos ein dealltwriaeth o'r angen i feddwl yn fwy hirdymor.



> “Nodwedd sy’n perthyn i’r gorffennol fydd anghydraddoldeb mewn iechyd ac addysg, wrth inni gydweithio am Fro lle mae gan bawb fynediad at y gwasanaethau a’r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i fyw bywyd iach, diogel a llawn.”

“Bydd gan bawb ymdeimlad o berthyn a byddant yn falch o fod yn rhan o’r Fro, gan gydnabod eu cyfraniad at lwyddiant y rhanbarth a Chymru. Bydd ein heffaith ar yr amgylchedd, yn lleol ac yn fyd-eang, yn cael ei deall yn well, a bydd gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau’n cydweithio i warchod yr amgylchedd a’n hadnoddau naturiol er budd cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol. Bydd y Fro yn ardal o optimistiaeth ac uchelgais, lle byddwn yn cydweithio i sicrhau bod pobl ifanc yn gwireddu eu huchelgeisiau unigol, ac yn cael cefnogaeth drwy’r blynyddoedd cynnar, plentyndod a blynyddoedd yr arddegau. Bydd rhinweddau ein poblogaeth sy’n heneiddio yn cael eu cydnabod a’u parchu, a chyfraniad pobl hŷn at hyfywedd a chydnerthedd y Fro yn cael ei werthfawrogi. Bydd preswylwyr o bob oed a chefndir yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned, gan helpu i siapio gwasanaethau ac ymfalchïo yn yr ardal y maen nhw’n byw ynddi. Cydweithio er budd cenedlaethau’r presennol a’r dyfodol fydd y norm, a bydd gan breswylwyr hyder yn y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, ac yn eu gallu i beri newid er mwyn wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal.”

Mae’r weledigaeth hon yn parhau i fod yn wir, a thros y pum mlynedd diwethaf rydym wedi cael ein llywio ganddi i gyflawni’r ymrwymiadau yn ein Cynllun Llesiant cyntaf. Mae ein hadran ‘Beth ydym ni wedi’i gyflawni’ yn nodi rhai o’n prif gyflawniadau wrth weithio tuag at y weledigaeth hon. Mae’r cyflawniadau hyn hefyd wedi’u disgrifio yn ein Hadroddiadau Blynyddol.

Yn rhan o’r gwaith o ddatblygu’r Cynllun hwn, rydym wedi trafod ein gweledigaeth a sut y gallwn ei chrisialu mewn brawddeg fwy cryno, i adlewyrchu ein dyheadau am y Fro, gan gadw naws yr hyn y gwnaethom ymrwymo iddo yn 2018. Credwn y gellir crynhoi ein gweledigaeth ar gyfer y Fro drwy’r uchelgais canlynol. Rydym am gael:

> “Cymunedau hapus ac iach sy’n cydweithio i greu Bro deg a chynaliadwy i bawb”

Drwy’r Cynllun hwn rydym yn esbonio sut y byddwn yn gweithio i wireddu’r weledigaeth hon, ein hamcanion, a’r camau y byddwn yn eu cymryd i wella llesiant a mynd i’r afael â chanfyddiadau ein **Hasesiad Llesiant.**

Gellir crynhoi ein taith o’r Asesiad Llesiant i’r Cynllun Llesiant hwn drwy ddeg cam allweddol:

# Datblygu ein Cynllun Lles

**1** **Cynhaliwyd yr asesiad lles** gan ddod ag ystod o ddata, ymchwil ac ymgysylltu ynghyd.

**2** Ystyriwyd canfyddiadau'r asesiad a **nodwyd 3 amcan lles a blaenoriaethau allweddol.**

**3** **Myfyriwyd ar ein cynnydd hyd yma,** sut mae'r bwrdd gwasanaeth cyhoeddus wedi esblygu a'r hyn rydym wedi'i ddysgu.

**4** **Ymgysylltwyd â thrigolion a rhanddeiliaid** gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned a phobl ifanc am ein hamcanion a'n blaenoriaethau.

**5** Cynhaliwyd **Gweithdy i'r Dyfodol** gan ddefnyddio'r model 3 Gorwel i ystyried yr argyfwng costau byw a'i effaith ar draws ein holl feysydd blaenoriaeth.

**6** Cyfarfuwyd â chydweithwyr o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i drafod **blaenoriaethau cyffredin y rhanbarth.**

**7** Ceisiwyd **cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** o ran sut i gyflawni ein hamcanion a myfyriwyd ar Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ac amrywiaeth o gyngor ymchwil a pholisi lleol a chenedlaethol.

**8** **Drafftiwyd cynllun** i adlewyrchu canfyddiadau'r asesiad lles, cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, barn rhanddeiliaid a phartneriaid.

**9** **Ymgynghoriad â'r cyhoedd, rhanddeiliaid ac ymgyngoreion statudol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol parthed y cynllun drafft.**


**10** Diwygiwyd y cynllun mewn ymateb i'r ymgynghoriad a **chafodd ei gymeradwyo gan y BGC i'w gyhoeddi.**

Rydym wedi ystyried y dystiolaeth, rydym wedi ymgysylltu, ymgynghori, adolygu a gosod ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

# Ein Hamcanion Llesiant

**Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Fro, byddwn yn gweithio dros y pum mlynedd nesaf i gyflawni ein tri Amcan Llesiant:**


- **Bro sy'n fwy cydnerth gwyrdd -** drwy ddeall a gwneud y newidiadau sydd eu hangen fel unigolion, cymunedau a sefydliadau mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- **Bro sy'n fwy iach ac egnïol -** drwy annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn fwy egnïol ac i hyrwyddo manteision mabwysiadu ffordd iachach o fyw.
- **Bro fwy cyfartal a chysylltiedig -** drwy fynd i'r afael â'r annhegwch a geir ar draws y Fro, ymgysylltu â'n cymunedau a chynnig cyfleoedd a chymorth gwell i wneud gwahaniaeth parhaol.



Mae'r amcanion hyn wedi'u gosod yng nghyd-destun canfyddiadau'r asesiad, yr heriau allweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd ynghyd ag anghenion tymor hwy gan gynnwys rhai cenedlaethau'r dyfodol a'r gwaith parhaus gan bartneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol. Mae'r diagram uchod yn dangos rhyng-gysylltedd ein tri Amcan Llesiant a sut y bydd gwahanol raglenni gwaith a gweithgarwch partneriaeth (presennol, newydd a diwygiedig) yn cyfrannu at gyflawni ein Hamcanion. Mae hyn yn dangos ehangder y gweithgarwch sy'n cael ei gyflawni mewn partneriaeth ar draws y Fro.

Rydym yn hyderus y gallwn, drwy'r Amcanion hyn, wneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a gwneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at y Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae'r adrannau 'Ein Hamcanion Lles' a 'Cyflawni Ein Hamcanion Lles' yn y cynllun hwn yn rhoi rhagor o fanylion am sut rydym wedi datblygu'r amcanion hyn, ein ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a'r ystod o weithgareddau a phrosiectau, y manylir arnynt uchod, sy'n rhan o'r camau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Mae'r ddelwedd isod yn esbonio'n fanylach sut mae ein hamcanion yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol. Mae'r matrics ar ddiwedd yr adran hon hefyd yn esbonio sut y bydd y camau a amlinellir isod yn cyflawni ein blaenoriaethau a'n Hamcanion, ac yn cyfrannu at y Nodau Llesiant cenedlaethol.

## Sut mae ein hamcanion lles yn cyflawnl'r nod lles cenedlaethol?




## Lles Diwylliannol ac Iaith Gymraeg ffyniannus

Mae'r BGC yn ymwybodol ei bod wedi'i nodi'n glir drwy'r cynllun sut y byddwn yn cyfrannu at les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ond mae angen mwy o waith i ystyried sut rydym yn gwneud y gwaith o hyrwyddo lles diwylliannol a'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwaith ni. Mae angen i hyn fod yn rhan annatod o'r gwaith o gyflawni ein Hamcanion Lles a'n ffrydiau gwaith â blaenoriaeth, ac un agwedd y mae partneriaid yn awyddus i'w harchwilio yw sut y gall gweithgareddau diwylliannol ein cynorthwyo yn ein gweithgareddau ymgysylltu, yn enwedig i'n helpu i gyrraedd y rhai nas clywir yn aml. Rydym hefyd yn awyddus i archwilio sut y gallwn gysylltu gwaith ar newid hinsawdd â gwahanol weithgareddau diwylliannol. Un enghraifft o'n gwaith arloesi yw gwaith Bwyd y Fro a fydd yn cynnal cynllun peilot ar gyfer llwybr Bwyd y Fro yn 2023 a byddwn yn cysylltu hyn â'r effaith y mae ein dewisiadau bwyd yn ei chael ar yr amgylchedd a'n lles. Bydd gweithgareddau diwylliannol hefyd yn rhan o'n gwaith i fod yn fwy oed gyfeillgar gan gydnabod y cyfraniad y gallant wneud tuag at fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ac at les yn gyffredinol.


Bydd y BGC hefyd yn parhau i hyrwyddo'r Gymraeg drwy ei waith. Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2021, mae Bro Morgannwg yn un o bedair ardal awdurdod lleol yn unig lle mae sgiliau Cymraeg wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011. Bydd BGC y Fro yn parhau i sicrhau, wrth iddo gyflawni'r ymrwymiadau yn y Cynllun Lles, ei fod yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn cyfrannu at strategaeth Gymraeg 2050 a'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

# Ffrydiau gwaith â Blaenoriaeth

Mae'r Cynllun hwn yn manylu ar amrywiaeth eang o waith a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein Hamcanion ac mae'r BGC wedi nodi tair ffrwd waith â blaenoriaeth lle mae angen ffocws penodol ac ychwanegol ar y cyd. Mae'r rhain yn dod ag amrywiaeth o waith sy'n bodoli eisoes ynghyd ond yn cydnabod bod angen adeiladu momentwm a herio'r ffyrdd presennol o weithio er mwyn bodloni'r anghenion a wynebu'r heriau a amlygwyd yn yr Asesiad Llesiant. Mae'r ffrydiau gwaith â blaenoriaeth hyn yn berthnasol er mwyn cyflawni ein holl Amcanion, a byddant hefyd ynn cyfrannu at yr holl Nodau Llesiant cenedlaethol.

Ceir rhagor o wybodaeth am fanylion y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth hyn yn adran Cyflawni Ein Hamcanion Lles y cynllun hwn.

Ein tair ffrwd waith â blaenoriaeth yw'r canlynol:




## Ymateb i argyfyngau hinsawdd a natur -

Drwy'r Cynllun Llesiant hwn mae'r BGC yn ailadrodd ei ymrwymiad i arwain drwy osod esiampl, gan fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur, a chydnabod ein cyfrifoldeb byd-eang i ymateb i'r naill argyfwng a'r llall. Mae'r Asesiad Llesiant yn nodi rhai o'r materion allweddol i'r Fro o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur ac mae partneriaid yn cydnabod mai'r ffordd orau o gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau yw drwy gydweithio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried trafnidiaeth, ynni, bwyd, bioamrywiaeth a sut rydym yn defnyddio ein hadeiladau a'n tir.

## Drwy weithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig -

Mae'r **Asesiad Llesiant** wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau ar draws y Fro a sut mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau hyn. Yn ogystal â hyn, bydd yr argyfwng costau byw presennol, yn enwedig y cynnydd mewn costau ynni a bwyd, yn effeithio hyd yn oed yn fwy ar y rhai sydd eisoes mewn tlodi. Bydd ffocws penodol ar yr ardaloedd hynny o Fro Morgannwg a nodir fel ardaloedd mwy difreintiedig gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a mynd i'r afael ag annhegwch yn y cymunedau hyn.

## Datblygu'n Fro Oed Gyfeillgar -

Diffinnir Cymunedau Oed Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd fel cymuned lle mae 'polisïau, gwasanaethau, lleoliadau a strwythurau yn cefnogi pobl a'u galluogi i heneiddio'n dda'. Rhagwelir y ceir cynnydd o 5,266 yn y boblogaeth 65-84 oed rhwng 2019 a 2039 a chynnydd o 2,904 yn y boblogaeth 85 oed neu'n hŷn. Bydd gwaith i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar ac yn ardal well i bobl heneiddio ynddo ynddi yn gwneud y Fro yn lle mwy cyfeillgar i bawb, ac yn helpu i sicrhau i barchu a gwerthfawrogi pobl hŷn yn ein cymunedau, gan gydnabod eu cyfraniad, eu hanghenion a'u dyheadau. Byddwn hefyd yn cydnabod rôl gweithgareddau diwylliannol er mwyn dod â gwahanol genedlaethau ynghyd. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar heneiddio'n dda a bydd ffocws ataliol cryf hefyd i'r gwaith wrth i bartneriaid gydweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion amrywiol y gymuned, gan ddarparu cymorth a chyfleoedd i breswylwyr o bob oed.



# Cyflawni ein hamcanion a'n ffrydiau gwaith â blaenoriaeth

Mae llawer iawn o waith eisoes yn cael ei wneud drwy'r BGC, ac mae'r camau isod yn adlewyrchu'r hyn y byddwn yn canolbwyntio arno i gyflawni ein Hamcanion. Mae hyn yn cynnwys parhau i ddarparu rhaglenni gwaith sydd eisoes wedi'u sefydlu, er enghraifft y Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Dda, symud ein ffrydiau gwaith â blaenoriaeth ymlaen, newid ein dull o weithio ac alinio ein gweithgareddau â gwaith partneriaethau eraill, er enghraifft, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r camau isod yn gyfuniad o weithgareddau sy'n trafod ein ffordd o weithio, er enghraifft, gwella'r defnydd o ddata ac ymgysylltu, a bydd y rhain yn effeithio ar holl weithgareddau'r BGC. Ceir rhagor o wybodaeth am y camau yn adrannau'r cynllun ar wneud gwahaniaeth a chyflawni ein hamcanion lles.

Mae'r 19 cam y byddwn yn eu cymryd a fydd, gyda'i gilydd, yn ein helpu i gyflawni ein ffrydiau gwaith â blaenoriaeth a'n hamcanion lles a chynyddu ein cyfraniad i'r holl nodau lles cenedlaethol, wedi'u nodi isod. Wrth gyflawni'r holl gamau hyn byddwn yn ymwybodol o anghenion amrywiol y gymuned, pwysigrwydd y Gymraeg a'r angen i ystyried sut y gallwn sicrhau ein bod yn cryfhau ein gwaith yn ymwneud â hyrwyddo lles diwylliannol fel rhan o'n gwaith. Mae'r camau hyn yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgaredd y BGC dros y pum mlynedd nesaf, a phob blwyddyn bydd y BGC, fel rhan o'r adroddiad blynyddol, yn nodi'n fanylach y gwaith y bydd yn ei wneud. Bydd mesurau perfformiad perthnasol yn cael eu nodi a bydd astudiaethau achos yn cael eu defnyddio i adrodd ar gynnydd.

1. Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.

2. Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.

3. Cynyddu'r defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a defnyddio dull sy'n seiliedig i raddau mwy ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau a diwygio gwasanaethau ar draws gwaith y BGC gan gynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC.

4. Defnyddio modelau fel y model 3H i gefnogi'r gwaith o feddwl yn y tymor hir a newid systemau ar draws y gweithgareddau a nodir yn y cynllun lles.

5. Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol.

6. Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael mynediad at gyllid ac alinio gweithgareddau i gynyddu galluedd, sgiliau ac adnoddau i gyflawni blaenoriaethau yn y Fro a'r rhanbarth ehangach.

7. Ymgysylltu â'n plant a'n pobl ifanc a'u cynnwys er mwyn deall eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol yn well a sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu eu barn a'u hanghenion.

8. Hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol a galluogi gwell dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau gyda ffocws ar ynni, yr economi gylchol, bwyd, bioamrywiaeth a theithio.

**9** Cyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd gan gynnwys datgarboneiddio ein hasedau, prosesau caffael a'n gwasanaethau.

**10** Dangos arweinyddiaeth a chymryd camau i leihau amlygiad ein cymunedau i risgiau amgylcheddol, e.e. effaith tywydd eithafol a llygredd.

**11** Gwella iechyd ein ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r angen i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r argyfwng natur.

**12** Cymryd rhan mewn dull mwy integredig o ymdrin ag ystad y sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n gwaith yn ymwneud â'r newid hinsawdd a natur.

**13** Gwella iechyd a lles ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar waith atal a lefelau gweithgarwch corfforol, deiet, y nifer sy'n cael brechlynnau a gwaith sgrinio.

**14** Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd fel rhan o raglen waith integredig a chydweithredol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu a dull ataliol sydd wedi'i dargedu'n well i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

**15** Gweithio mewn partneriaeth i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar, gan sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r gwasanaethau, y cymorth a'r cyfleoedd cywir yn lleol a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a gwella lles.

**16** Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu'n cymunedau a'n staff i ddelio ag effeithiau costau byw, e.e. y cynnydd yng nghostau bwyd, ynni a theithio.

**17** Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy raglenni gwaith a ffrydiau ariannu presennol i fynd i'r afael ag annhegwch a gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, e.e. Dechrau'n Deg a rhaglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant.

**18** Ymgysylltu â'r gymuned a mapio asedau i ddeall ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn well a chynnwys y bobl sy'n byw yno a'r sefydliadau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer newid a gwelliant.

**19** Cefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiad agos â lles amgylcheddol ac iechyd a chodi ymwybyddiaeth ohono.








Wrth gyflawni'r camau hyn, byddwn yn ymgorffori'r pum dull o weithio. Rydym yn hyderus ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cydweithio, integreiddio a gwaith atal ond yn cydnabod bod angen cryfhau ein gwaith atal a hefyd sut yr ydym yn meddwl yn fwy hirdymor. Bydd nifer o'r camau gweithredu a amlinellir uchod yn cynorthwyo gyda hyn, e.e. gwaith yn ymwneud ag annhegwch iechyd, syniadau ar gyfer y dyfodol ac ymgysylltu a mapio. Yn benodol, bydd y camau gweithredu a nodir yn adran Gwneud Gwahaniaeth y cynllun hwn yn cefnogi'r BGC i weithio mewn modd gwahanol a herio arferion presennol.

**Mae'r tabl isod** yn manylu ar sut mae pob un o'r 19 cam hyn yn cyfrannu at y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth, yr amcanion lles a'r nodau lles cenedlaethol.

### DEALL SUT MAE EIN CAMAU YN CYFRANNU AT Y NODAU LLESIANT

| CAM | | HAMCANION | | | BLAENORIAETHAU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Bro Fwy Cyfartal a Chysylltiedig | Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd | Bro sy'n fwy iach ac egnÏol | Gweithio gyda'r cymunedau mwyaf difreintiedig | Y mateb i argyfyngau hinsawdd a natur | Datblygu'n Fro Oed Gyfeillgar |
| 1 | Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymaleb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreinliedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleuster au'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 2 | Cynorlhwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 3 | Cynyddu'r defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a defnyddio dull sy'n seiliedig i raddau mwy ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau a diwygio gwasanaethau ar draws gwaith y BGC gan gynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 4 | Defnyddio modelau fel y model 3H i gefnogi"r gwaith o feddwl yn y tymor hir a newid systemau ar draws y gweithgareddau a nodir yn y cynllun lies. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 5 | Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 6 | Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael mynediad at gyllid ac alinio gweithgareddau i gynyddu galluedd, sgiliau ac adnoddau i gyflawni blaenoriaethau yn y Fro a'r rhanbarth ehangach. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 7 | Ymgysylltu â'n plant a'n pobl ifanc a'u cynnwys er mwyn deall eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol yn well a sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu eu barn a'u hanghenion. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | |
| 8 | Hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol a galluogi gwell dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau gyda ffocws ar ynni, yr economi gylchol, bwyd, bioamrywiaelh a theithio. | | ○ | ○ | | ○ | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | Cyflawrn'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd gan gynnwys datgarboneiddio ein hasedau, prosesau caffael a'n gwasanaethau. | | ○ | ○ | | ○ | |
| 10 | Dangos arweinyddiaeth a chymryd camau i leihau amlygiad ein cymunedau i risgiau amgylcheddol, e.e. effaith tywydd eithafol a llygredd. | | ○ | | | ○ | |
| 11 | Gwell a iechyd ein ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r angen i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r argyfwng natur. | | ○ | | | ○ | |
| 12 | Cymryd rhan mewn dull mwy integredig o ymdrin ag ystad y sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n gwaith yn ymwneud â'r newid hinsawdd a natur. | ○ | ○ | | | ○ | |
| 13 | Gwella iechyd a lles ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar waith atal a lefelau gweithgarwch corfforol, deiet, y nifer sy'n cael brechlynnau a gwaith sgrinio. | ○ | | ○ | ○ | | ○ |
| 14 | Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd fel rhan o raglen waith integredig a chydweithredol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu a dull ataliol sydd wedi'i dargedu'n well i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf. | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| 15 | Gweithio mewn partneriaeth i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar, gan sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r gwasanaethau, y cymorth a'r cyfleoedd cywir yn lleol a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a gwella lles. | ○ | | ○ | | | ○ |
| 16 | Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu'n cymunedau a'n staff i ddelio ag effeithiau costau byw, e.e. y cynnydd yng nghostau bwyd, ynni a theithio. | ○ | | | ○ | | ○ |
| 17 | Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy raglenni gwaith a ffrydiau ariannu presennol i fynd i'r afael ag annhegwch a gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, e.e. Dechrau'n Deg a rhaglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant. | ○ | | | ○ | | |
| 18 | Ymgysylltu â'r gymuned a mapio asedau i ddeall ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn well a chynnwys y bobl sy'n byw yno a'r sefydliadau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer newid a gwellianl. | ○ | ○ | | ○ | ○ | |
| 19 | Cefnogi gwaith I fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiad agos a lles amgylcheddol ac iechyd a chodi ymwybyddiaeth ohono | ○ | ○ | | ○ | ○ | |

## NODAU LLES CENEDLAETHOL

| CAM | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru lewyrchus | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cymru gydnerth | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | | | |
| Cymru iachach | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ |
| Cymru o gymunedau cydlynus | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | |
| Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ○ | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | | | | ○ | | | ○ | |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fydeang | | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | ○ | | | | | | | |

# Monitro ac adrodd ar gynnydd

Bydd y BGC yn parhau i gyhoeddi Adroddiadau Blynyddol sy'n nodi'r hyn y mae'r BGC wedi'i gyflawni bob blwyddyn a'r ffocws ar gyfer y 12 mis nesaf. Bydd Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol y Cyngor, a phwyllgorau eraill fel bo'n briodol, yn craffu ar waith y Bwrdd.

Bydd y BGC yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd y gweithgareddau allweddol y manylir arnynt yn y cynllun hwn i sicrhau bod y materion a amlygwyd yn yr asesiad lles yn cael sylw, bod yr amcanion lles yn cael eu cyflawni a bod y BGC yn cyfrannu at nodau'r cynllun lles cenedlaethol.

Bydd mesurau'n cael eu nodi i ategu'r gwaith o adrodd ar gynnydd a bydd y cerrig milltir cenedlaethol diwygiedig yn rhan o'r gwaith hwn fel y bo'n briodol. Mae gan lawer o'r prosiectau a'r partneriaethau sy'n cyfrannu at y gwaith ystod o fesurau wedi'u nodi ac maent yn llunio adroddiadau blynyddol, e.e. bydd Symud Mwy, Bwyta'n Iach a Bro Ddiogelach yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu a dangos cynnydd.






# GWNEUD GWAHANIAETH

Un o'r cwestiynau a ofynnir yn aml gan randdeiliaid a Phwyllgorau Craffu yw pa wahaniaeth y mae'r BGC wedi'i wneud? Beth mae'n ei wneud? Credwn mai rôl allweddol y BGC yw ychwanegu gwerth/ gwneud gwahaniaeth a hyrwyddo a dylanwadu ar waith eraill, hyrwyddo'r pum ffordd o weithio a sicrhau ein bod yn cyflawni er budd ein cymunedau ar draws ein sefydliadau a'n rhwydweithiau. Mae partneriaid wedi ymrwymo i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ar draws y Fro a manylir ar y gwaith hyd yma mewn cyfres o Adroddiadau Blynyddol cyhoeddwyd gan y BGC sy'n dangos sut rydym wedi ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.






## Pum Ffordd o Weithio

**Mae’r pum ffordd o weithio yn parhau i fod yn rhan annatod o waith y BGC ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid i’r ffordd rydym yn gweithio barhau i esblygu. Wrth gyflawni ein Hamcanion byddwn yn parhau i ymwreiddio’r pum ffordd o weithio ac yn herio eraill i sicrhau eu bod hwythau hefyd yn coleddu’r ffyrdd hyn o weithio. Yn benodol, rydym yn awyddus i gryfhau ein gwaith yn gysylltiedig ag atal a bodloni anghenion hirdymor.**

Hirdymor | Ymgyfraniad | Integreiddio | Cydweithio | Atal

## Gweithio gyda’n Cymunedau

Byddwn yn parhau i weithio gyda chymunedau lleol a’n plant a’n pobl ifanc, gan ddefnyddio’r sgiliau a’r fforymau sydd ar waith ar draws ein sefydliadau i hwyluso’r gwaith hwn a datblygu dulliau newydd i sicrhau ein bod yn cyrraedd plant a phobl o bob oed a allai fod wedi ymddieithrio neu heb gael gwrandawiad yn aml. Rydym yn cydnabod, wrth inni gyflawni’r gwaith sydd ei angen o fewn ein cymunedau mwy difreintiedig, y bydd angen ymgysylltu â’r cymunedau hynny a’u cynnwys i raddau sylweddol. Rydym hefyd yn cydnabod bod angen cynnal trafodaeth gymunedol ynghylch y newidiadau sydd eu hangen yn wyneb yr argyfyngau hinsawdd a natur. Byddwn yn gwneud diwylliant o ymgysylltu ystyrlon â chymunedau a rhanddeiliaid eraill yn rhan annatod o waith y BGC a bydd hyn hefyd yn helpu i lunio sut y gallwn gynnwys y gymuned a rhanddeiliaid eraill fwyfwy yn ein gwaith. Rydym yn arbennig o awyddus i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes ar y gweill i weithio’n agosach gyda chynghorau tref a chymuned.

## Gweithio ar Sail Tystiolaeth

Fel y nodwyd yn gynharach yn y Cynllun byddwn yn cryfhau ein sylfaen dystiolaeth i sicrhau bod gennym ddata a gwybodaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol gadarn i lywio ein gweithgareddau ac i gefnogi gwaith monitro cynnydd. Mae’n hanfodol ein bod yn datblygu ein dirnadaeth drwy ddefnyddio data ac ymgysylltu a bod gennym ymagwedd sy’n seiliedig ar dystiolaeth at ein gweithgareddau. Yn benodol, byddwn yn gwneud gwaith i ddeall yn well pa gamau y gellir eu cymryd i wella gwaith sy’n ymwneud â llesiant diwylliannol.

## Adnoddau

Agwedd sy’n allweddol ar ffordd BGC o weithio yw’r adnoddau sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau partneriaeth, ac i alluogi’r BGC i gyflawni ei ymrwymiadau a’i flaenoriaethau. Mae’r BGC yn dibynnu ar gydweithwyr ar draws sefydliadau partner i symud gwaith y BGC yn ei flaen oddi mewn i’w hadnoddau presennol. Hyd yma, mae’r BGC wedi defnyddio’r grant blynyddol gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddatblygu’r BGC, ee sylfaen dystiolaeth a gweithgarwch ymgysylltu’r BGC. Yn 2020/21 neilltuodd Cyfoeth Naturiol Cymru £25,000 o gyllid ar gyfer BGCau.Yn y Fro, defnyddiwyd yr arian hwn ar gyfer ystod o brosiectau, gan gynnwys prosiect gardd, plannu coed, cymorth ar gyfer Bwyd y Fro a chanolfan addysg awyr agored mewn gardd gymunedol yn y Barri. Yn ogystal â hyn, mae’r BGC wedi defnyddio cyllid y blynyddoedd cynnar ac atal gan Iechyd Cyhoeddus



Cymru i ddatblygu gwaith yn gysylltiedig â gwirfoddoli a chynlluniau bancio amser, ac yn defnyddio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith Oed Gyfeillgar. Bydd partneriaid yn parhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i ddefnyddio cyllid grant i symud ymlaen â blaenoriaethau'r BGC, ac i ystyried sut i wneud y mwyaf o sgiliau, profiad a chyfleoedd datblygu er mwyn sicrhau cynnydd gweithgareddau'r BGC.

## Gwaith Rhanbarthol

Mae'r BGC yn parhau i weithio gyda BGC **Caerdydd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.** Mae hyn yn ei alluogi i alinio gweithgareddau ar draws y rhanbarth, gan wneud y mwyaf o'r adnoddau a'r capasiti sydd ar gael ar draws ein sefydliadau a rhannu dysg ac arbenigedd. Yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Llesiant, cynhaliwyd nifer o weithdai i ystyried blaenoriaethau a threfniadau llywodraethu, a bydd yr ymagwedd hon o weithio ar y cyd yn parhau wrth inni symud ymlaen â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Llesiant, y mae llawer ohonynt yn gyffredin ar draws Caerdydd a'r Fro, ac mae trefniadau rhanbarthol eisoes ar waith ee, y Bwrdd Cynyddu Gwaith Atal sy' canolbwyntio ar flaenoriaethau iechyd cyhoeddus. Rydym hefyd yn cydnabod cyrhaeddiad a dylanwad **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** a'i bod yn bwysig i flaenoriaethau'r Fro fod yn rhan o'r agenda honno, yn enwedig pryderon ynghylch trafnidiaeth a chyflogaeth a'r broses o drosglwyddo i economi a chymdeithas ddi-garbon. Bydd y Cydbwyllgor Corfforaethol newydd hefyd yn cynnig cyfle pellach i gydweithio er mwyn hyrwyddo blaenoriaethau'r BGC.

## Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn roedd y BGC yn croesawu arbenigedd cydweithwyr yng Nghyfoeth Naturiol Cymru a'u cynnig i gynnal gweithdy 3 Gorwel i ddatblygu ein ffordd o feddwl ac ymwreiddio'r angen i feddwl am y dyfodol yn ein gwaith. Mae'r **Tri Gorwel** (model 3G) yn cael ei hyrwyddo'n eang gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol i helpu cyrff cyhoeddus i feddwl, a chynllunio'n well am ddyfodol ansicr. Fframwaith syml yw'r model 3 Gorwel sy'n helpu pobl i gynnal sgwrs effeithiol ynghylch yr hyn sy'n digwydd heddiw, y dyfodol yr ydym am ei greu gyda'n gilydd, a'r dulliau arloesol sy'n bodoli i'n helpu i gyrraedd y dyfodol hwnnw. Mae partneriaid BGC yn awyddus i wneud defnydd pellach o'r model 3G I wella gwaith y BGC, gan ystyried sut y gallwn wneud gwahaniaeth ar draws ein Hamcanion a sicrhau ein canlyniadau.

Mae'r adran Cyflawni Ein Hamcanion Lles yn manylu ar y camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein hamcanion lles ac mae hyn yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ynghylch sut mae'r BGC yn gweithio.

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.
- Cynyddu'r defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a defnyddio dull sy'n seiliedig i raddau mwy ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau a diwygio gwasanaethau ar draws gwaith y BGC gan gynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC.
- Defnyddio modelau fel y model 3H i gefnogi'r gwaith o feddwl yn y tymor hir a newid systemau ar draws y gweithgareddau a nodir yn y cynllun lles.
- Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael mynediad at gyllid ac alinio gweithgareddau i gynyddu galluedd, sgiliau ac adnoddau i gyflawni blaenoriaethau yn y Fro a'r rhanbarth ehangach.
- Ymgysylltu â'n plant a'n pobl ifanc a'u cynnwys er mwyn deall eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol yn well a sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu eu barn a'u hanghenion.
- Cymryd rhan mewn dull mwy integredig o ymdrin ag ystad y sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n gwaith yn ymwneud â'r newid hinsawdd a natur.
- Gweithio mewn partneriaeth i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar, gan sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r gwasanaethau, y cymorth a'r cyfleoedd cywir yn lleol a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a gwella lles.



# BETH RYDYM WEDI'I GYFLAWNI

## Wrth ddatblygu ein Cynllun Llesiant newydd mae hi wedi bod yn bwysig myfyrio ar y pum mlynedd diwethaf

**Gan ystyried yr hyn rydym wedi'i gyflawni, beth sydd wedi gweithio'n dda a'r gwersi rydym wedi'u dysgu er mwyn cynllunio i'r dyfodol.**

Yn 2018 cytunodd y BGC ar bedwar Amcan Llesiant a oedd yn adlewyrchu'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yn yr **Asesiad Llesiant a gyhoeddwyd yn 2017.**

- **Galluogi pobl i gymryd rhan, i gyfranogi yn eu cymunedau lleol ac i siapio gwasanaethau lleol.**
- **Lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.**
- **Rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd.**
- **Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd.**

Ceir manylion llawn yr hyn sydd wedi'i wneud er mwyn cyflawni'r Amcanion hyn a blaenoriaethau perthnasol y BGC mewn cyfres o Adroddiadau Blynyddol a gyhoeddwyd gan y BGC. Mae'r rhain yn dangos sut rydym wedi ymwreiddio'r pum ffordd o weithio ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol.



**Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y mae'r BGC wedi'i gyflawni:**

- Cynnig ymateb effeithiol i bandemig COVID-19, cryfhau ein gwaith partneriaeth, cefnogi'r naill a'r llall a'r gymuned i fodloni anghenion y rhai sy'n fwyaf agored i niwed, rheoli'r cyfyngiadau a wnaeth ein cadw'n ddiogel a rhoi'r rhaglen frechu ar waith.

- Cytuno ar Siarter Argyfwng Hinsawdd a monitro cynnydd â phartneriaid, gan gymryd camau sylweddol i leihau eu heffaith negyddol ar yr amgylchedd ac i rannu arferda.

- Dull mwy integredig o ymgysylltu rhwng partneriaid, ac yn arbennig, gwella sut rydym yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfarfod arbennig o'r BGC gyda phobl ifanc i ganolbwyntio ar y newid hinsawdd.

- Sefydlu cyfarfodydd cyfnewid rheolaidd o'r BGC/ Cyngor Tref a Chymuned i drafod materion allweddol a deall mwy am waith a blaenoriaethau'r naill a'r llall. Mae hyn yn ychwanegol at gael cynrychiolydd o'r Cyngor Tref a Chymuned ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

- **Datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC** a mwy o fewnwelediad i'n cymunedau, gan gynnig mynediad i'n partneriaid at ddata allweddol i gefnogi eu gwaith.

- Arwyddo **Siarter Teithio Llesol** a chyflawni ymrwymiadau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, cyfathrebu ac arweinyddiaeth, gweithio ystwyth a cherbydau allyriadau isel iawn.

- Cryfhau gwaith **Partneriaeth Bwyd y Fro** sydd wedi ennill Gwobr Efydd Mannau Bwyd Cynaliadwy a chynnal Gŵyl Bwyd y Fro flynyddol lwyddiannus am y 2 flynedd ddiwethaf i hyrwyddo bwyd lleol a chyfleoedd tyfu.

- Cydweithio er mwyn helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd, gan gynnwys cais llwyddiannus am gyllid ar gyfer **Prosiect Peilot Mynediad at Fwyd Llanilltud Fawr** ar ôl ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol.

- Ehangu ac ailddatblygu'r cynllun bancio amser lleol a elwir bellach yn **'Gwerth yn y Fro'** sydd ar gael i bawb yn dilyn ceisiadau llwyddiannus am gyllid ar gyfer Swyddog Ymgysylltu Digidol a Gwirfoddoli.

- Cryfhau partneriaethau aml-asiantaeth drwy gydweithio i fynd i'r afael â chynnydd mewn troseddu nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, yn sgil cyfyngiadau a osodwyd yn gysylltiedig â chyfnodau clo COVID-19.

- Gweithio gyda'n gilydd i fwrw ymlaen â **Chynllun Symud Mwy Bwyta'n Iach Caerdydd a'r Fro** a ddatblygwyd mewn partneriaeth, er mwyn annog a chefnogi gweithgareddau sy'n cadw pobl yn iach ac egnïol yn erbyn 10 maes â blaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth.

- Wedi'i addasu i weithio mewn ffyrdd newydd i gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau ar draws Bro Morgannwg, i ddatblygu a chyflwyno darpariaeth chwarae a chwaraeon o ansawdd uchel ar adegau pan nad oedd cyfleoedd chwaraeon a chwarae wyneb yn wyneb yn bosibl mwyach oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

- Ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc i drafod materion sy'n gysylltiedig â'r newid hinsawdd a sut i wneud y Fro'n ardal Oed Gyfeillgar, a syniadau ynghylch sut y gall partneriaid gydweithio â phobl ifanc i newid pethau er gwell.

- Sefydlu Bwrdd Cyflawni Cynyddu Gwaith Atal ar draws Caerdydd a'r Fro i gynnal ymagwedd ddatblygedig ar y cyd i wella gwaith atal a threchu anghydraddoldeb, gan ganolbwyntio i ddechrau ar imiwneiddio plant; sgrinio coluddion; a Symud Mwy, Bwyta'n Iach, gan weithredu mewn ffordd sy'n dangos yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn sgil yr ymateb i'r pandemig.

- Defnyddio cyllid grant CNC i ddarparu cyfleusterau addysg awyr agored mewn gardd gymunedol yn y Barri, i blannu mwy o goed ac i gefnogi prosiect gardd gwirfoddolwyr yn Llanilltud Fawr, o dan arweiniad Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg.

Mae'r cyflawniadau hyn, y gwaith arall rydym wedi'i gyflawni mewn partneriaeth a'r ffyrdd rydym wedi gweithio gyda'n gilydd a chydag eraill wedi creu profiadau defnyddiol i fyfyrio arnynt. Rydym wedi cydnabod rôl y BGC fel galluogwr a hwylusydd ac mae'r ystyriaeth a roddwyd i hyn ynghyd â'r asesiad lles, ein gwaith ymgysylltu ac ymgynghori, a chyngor gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi helpu i lywio'r cynllun hwn a sut y bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni amcanion lles y BGC.






DARLUN O FRO MORGANNWG

# YR ASESIAD LLESIANT

## Ym mis Ebrill 2022 cyhoeddodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ei ail Asesiad Llesiant.

**Mae Darlun o Fro Morgannwg sy'n adeiladu ar seiliau'r asesiad cyntaf a gynhaliwyd yn 2017, ac yn dadansoddi canfyddiadau data, ymchwil ac ymgysylltu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, wedi gwella sylfaen dystiolaeth a dealltwriaeth y BGC ymhellach ynghylch gwahanol ardaloedd, cymunedau a phobl ar draws Bro Morgannwg.**

Mae'r Asesiad yn astudio'r rhyngweithiad cymhleth rhwng profiadau o lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, a sut y gall y profiadau hyn effeithio ar lesiant pobl ym Mro Morgannwg.

Mae Darlun o Fro Morgannwg yn cynnwys pedwar adroddiad thematig sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Asesiad Llesiant. Mae'r adroddiadau thematig yn cynnal adolygiad manwl o bob thema unigol, ond oherwydd natur llesiant, maent yn rhyng-gysylltiedig. Dyma'r pedwar adroddiad thematig sy'n ffurfio'r Asesiad Llesiant:

- **Adroddiad Demograffig**
  Dadansoddiad manwl o newidiadau a thueddiadau poblogaeth y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.
- **Adroddiad Addysg a'r Economi**
  Dadansoddiad o addysg a sgiliau, cyflogaeth ac enillion, twf economaidd a thai.
- **Adroddiad Iechyd a Chymunedau**
  Dadansoddiad o ddangosyddion iechyd allweddol, ymddygiad iach a llesiant cymdeithasol a diwylliannol.
- **Adroddiad yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth**
  Dadansoddiad o'r argyfwng hinsawdd a natur, cynefinoedd, llifogydd, trafnidiaeth ac ynni.



> "Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys dadansoddiad o lesiant ym Mro Morgannwg ar lefel sirol, ar lefel leol, a thrwy rannu Bro Morgannwg yn dair ardal gymunedol - Y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro, a lle bo'n bosibl, ac ar raddfa fwy lleol na'r ardaloedd cymunedol hynhefyd."

Mae'r Asesiad Llesiant wedi creu nifer fawr o ganfyddiadau amrywiol. Canfuwyd fod llesiant ym Mro Morgannwg yn dda i lawer. Yn erbyn nifer o ddangosyddion allweddol, ac o gymharu ag ardaloedd eraill ledled Cymru, mae pobl ym Mro Morgannwg yn cael deilliannau addysgol da, mae eu henillion yn uwch na chyfartaledd Cymru, maen nhw'n profi iechyd da, yn profi llai o drosedd ac anhrefn, yn fodlon â'r ardal maen nhw'n byw ynddi ac mae ganddyn nhw fynediad at fannau gwyrdd a glas o ansawdd uchel. Nid yw'r profiadau hyn yn gyson - mae profiadau o galedi ariannol, iechyd gwaelach, trosedd ac anhrefn, a'r ffaith eu bod yn dod i gysylltiad â risg amgylcheddol anghyfartal yn parhau i effeithio ar lesiant rhai pobl. Rhoddodd pandemig Covid-19 bwysau pellach ar y rhai a oedd eisoes yn profi anfantais a diffyg llesiant, yn gan effeithio'n arbennig ar lesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol preswylwyr. Bydd rhai o'r newidiadau a brofwyd drwy'r pandemig o gymorth i ateb heriau fel yr angen i lei au allyriadau; mae eraill wedi bwrw mwy o oleuni ar natur anghyfartal profiadau o lesiant yn y sir.

Y canfyddiadau hyn (a natur ryng-gysylltiedig profiadau llesiant) sydd wedi achosi i'r BGC nodi tri Amcan Llesiant a meysydd â blaenoriaeth a fydd yn helpu'r BGC i ymateb i'r dystiolaeth hon a mynd i'r afael â'r angen i weithredu nawr, a datblygu fframwaith ar gyfer gweithredu dros y tymor hir

Cydnabyddir bod bylchau o ran tystiolaeth a data yn yr asesiad, sydd yn eu tro wedi effeithio ar ddatblygiad y cynllun hwn. Cynhaliwyd yr asesiad yn ystod pandemig COVID-19, cyfnod o newid cyflym ac heb ei debyg. Er bod y data a'r dystiolaeth sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad yn gadarn, mae angen parhau i'w hadolygu a'u diweddaru a nodi ffynonellau data a thystiolaeth newydd i sicrhau bod gan y BGC fynediad at y mewnwelediad mwyaf diweddar. Am y rheswm hwn, mae'r BGC wedi parhau i ddatblygu ei sylfaen dystiolaeth; bydd hyn yn cynnwys adroddiadau archwiliad dwfn manwl i fynd i'r afael â bylchau tystiolaeth a nodwyd ac i archwilio sut y gellid defnyddio ymchwil a thystiolaeth newydd i wella lles ym Mro Morgannwg.









HERIAU DIFRIFOL

# YR ARGYFYNGAU HINSAWDD A NATUR A’R ARGYFWNG COSTAU BYW

## Mae’r Asesiad Llesiant yn creu sylfaen gref o dystiolaeth yn sail ar gyfer gwaith y BGC

**Ac fel partneriaeth rydym yn parhau i gryfhau’r sylfaen dystiolaeth honno, gan gyfuno data, gwaith dadansoddi, ymchwil a chanlyniadau ein gweithgarwch ymgysylltu.**

Fodd bynnag, mae dwy her gyfredol ac, o bosib, hirdymorsy’n torri ar draws pob un o’n Hamcanion ac sy’n berthnasol i’r holl waith yr ydym yn ei ddatblygu fel BGC. Y rhain yw’r argyfyngau hinsawdd a natur a’r argyfwng costau byw.

Mae’r rhain yn effeithio ar ein dull o ddarparu gwasanaethau ac ar fywydau beunyddiol ein cymunedau. Er mwyn gwella llesiant ar draws y Fro mae angen inni wynebu’r heriau hyn a deall eu heffaith ar fywydau pawb sy’n byw yn y Fro heddiw. Rhaid inni ddeall hefyd, os na lwyddwn i wynebu’r heriau hyn, y byddant yn diffinio bywydau cenedlaethau’r dyfodol.

## Y Newid Hinsawdd a’n Hadnoddau Naturiol

Derbynnir yn bendant bellach fod gweithgarwch dynol wedi cynhesu atmosffer, cefnforoedd a thir y ddaear. O ganlyniad i hyn, gellir gweld newidiadau cyflym yn digwydd ar draws y byd. Nid yw Cymru, na Bro Morgannwg, wedi’u heithrio o’r newidiadau hyn. Yng Nghymru mae’r tymheredd cyfartalog wedi codi 0.9°C yn flynyddol o ganol y 1970au hyd canol y 2010au. I raddau tebyg, mae cyfartaledd cymedrig y glawiad wedi cynyddu 2% o ganol y 1970au hyd canol y 2010au. Rhagwelir bod llawer o’r newidiadau hyn bellach wedi’u hymwreiddio mewn systemau amgylcheddol a fydd yn arwain at risgiau cynyddol i’r amgylchedd naturiol, ac oddi wrtho. Byddai peidio cydnabod ac ymateb i’r newidiadau amgylcheddol hyn yn creu goblygiadau difrifol o ran llesiant amgylcheddol a chymunedol.

Mae **Adroddiad yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth** yr Asesiad Llesiant wedi amlinellu sut mae’r risgiau uwch hyn yn effeithio arfywyd ym Mro Morgannwg, a sut y byddant yn parhau i wneud hynny. Mewn ymateb i arolwg ymgysylltu Dewch i Siarad am Fywyd ym Mro Morgannwg, a gynhaliwyd i lywio’r Asesiad Llesiant, atebodd 86% o ymatebwyr eu bod yn ‘weddol bryderus’ neu’n ‘bryderusiawn’ am y newid hinsawdd. Atebodd 70% o ymatebwyr eu bod yn credu bod y newid hinsawdd eisoes yn cael effaith ym Mro Morgannwg.

Roedd yr ail Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol **(SoNaRR2020)** a’i ganfyddiadau’n greiddiol i’r dadansoddiad a gyflwynwyd yn yr Asesiad Llesiant. Neges allweddol SoNaRR2020 yw’r angen i newid y modd y mae cymdeithas yn rhyngweithio â thair system amgylcheddol - Bwyd, Ynni a Thrafnidiaeth. Drwy fynd i’r afael â’r systemau hyn, bydd modd gweddnewid pethau. Drwy’r newidiadau hyn efallai y bydd modd addasu, lliniaru a gwrthdroi’r argyfyngau hinsawdd a natur, er mwyn sicrhau trosglwyddiad cyfiawn i ddatgarboneiddio a gwella iechyd a gwytnwch ecosystemau, gan ragatal ac atal clefydau a marwolaethau y gellir eu hosgoi a achosir gan beryglon amgylcheddol

Mae'n hanfodol inni ddatblygu dealltwriaeth well o'r systemau allweddol sy'n ysgogi arferion anghynaladwy. Mae'rsystemau amgylcheddol, y systemau bwyd a'rsystemau adnoddau sy'n dylanwadu ar lesiant amgylcheddol yn aml yn ymddwyn mewn ffyrdd sy'n gymhleth ac annarogan. Mewn meysydd fel rheoli tir, rheoli gwastraff, cadwraeth bioamrywiaeth, atal llygredd, diogelwch bwyd a datgarboneiddio, mae achos ac effaith materion sy'n dod i'r amlwg yn gymhleth. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn mae angen newid systemau,ac mae angen inni archwilio gyda'n gilydd sut y gallwn ddylanwadu ar y systemau hyn.

Bydd yr angen i ddatgarboneiddio ein heconomi a'n cymunedau yn cael effaith ar ein gwasanaethau, ein gweithlu, ein cymunedau, busnes a diwydiant mewn gwahanol ffyrdd. Mae partneriaid BGC mewn sefyllfa dda i ystyried y ffyrdd gorau ymlaen a sut i gyfathrebu ynghylch y penderfyniadau a'r newidiadau sydd eu hangen.

> “Er mwyn inni ymateb yn llwyddiannus i'r argyfwng natur, mae angen i bob un ohonom ystyried sut i ddiogelu a gwella ein cyflenwadau o adnoddau naturiol, sut i wella iechyd ein hecosystemau a lleihau amlygiad i risgiau amgylcheddol, a sut i hyrwyddo economi gylchol.”



# Yr Argyfwng Costau Byw

Er i'r Asesiad Llesiant ganfod bod llawer o brofiadau llesiant ym Mro Morgannwg yn dda, nid yw'r profiadau hyn yn gyson. Mae caledi ariannol, iechyd gwaelach, trosedd ac anhrefn, a'r ffaith eu bod yn dod i gysylltiad â risg amgylcheddol anghyfartal yn parhau i effeithio ar lesiant rhai pobl. Yn sgil yr argyfwng costau byw presennol mae'n debygol y bydd hyd yn oed mwy o bobl yn dechrau profi caledi ac yn gweld eu hansawdd bywyd yn dirywio.

Mae cysylltiadau wedi cael eu sefydlu rhwng y profiadau hyn a phobl sy'n byw mewn ardaloedd a nodwyd yn ardaloedd mwy difreintiedig. Ym Mro Morgannwg, mae tair Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) wedi'u nodi ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 fel rhai sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae saith AGEHI arall wedi'u cynnwys ymhlith y 10-20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pob un o'r deg AGEHI wedi'u lleoli yn y Barri. Mae'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o fod ag arferion iach, ac yn fwyaf tebygol o brofi deilliannau iechyd gwaelach. Gwyddom fod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o fodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy cefnog, ac mae'n debygol y bydd yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anoddach i gael y cyfle i fod yn egnïol a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol wedi'u trefnu. Gwelir cyfraddau brechu is yn ardaloedd mwy difreintiedig Bro Morgannwg. Gwelir gwahaniaethau sylweddol mewn disgwyliad oes iach wrth gymharu ein hardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig. Gwelir hefyd lefelau mwy niweidiol o'r llygrydd Nitrogen Deuocsid (NO2) a risg uwch o ddigwyddiadau llifogydd mewn ardaloedd mwy difreintiedig.

Nid yw hyn yn golygu bod pawb sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn profi amddifadedd a lefelau is o lesiant; yn yr un modd, gwyddom fod ardaloedd ledled Bro Morgannwg heb eu nodi'n ardaloedd mwy difreintiedig lle mae pobl yn profi caledi a lefelau gwael o lesiant.

Gwaethygodd pandemig Covid-19 y profiadau hyn i lawer, gan roi pwysau sylweddol ar y rhai a oedd eisoes yn ei chael hi'n anodd oherwydd diffyg llesiant. Mae'r argyfwng costau byw sy'n datblygu yn bwrw goleuni pellach ar anghydraddoldeb mewn cymdeithas. Mae'r cynnydd mewn prisiau ynni, chwyddiant cynyddol, cynnydd mewn costau trafnidiaeth a bwyd yn taro'r aelwydydd tlotach galetaf. Mae cynnydd mewn prisiau ynni yn taro aelwydydd tlotach mewn modd anghymesur - amcangyfrifir bod yr aelwydydd tlotaf yn gwario 11% o gyfanswm eu cyllideb ar nwy a thrydan, o gymharu â 4% o'r aelwydydd cyfoethocaf. Mae'r effaith hon



yn cael ei gwaethygu gan anghysondebau ym mhrisiau ynni, gyda'r aelwydydd hynny sydd â mesuryddion rhagdalu yn talu mwy am eu hynni nag aelwydydd heb fesuryddion o'r fath. Mae effeithlonrwydd ynni aelwydydd a phrisiau ynni hefyd yn rhyngweithio â'i gilydd, ac mae rhai o'r tai lleiaf effeithlon yn y DU ac yn Ewrop o ran gwresogi a chadw gwres i'w cael yng Nghymru. I'r rhai sy'n byw mewn tai o'r fath yn y ,gallai cynhesu a chadw cartref yn gynnes droi'n fwyfwy anodd. Yn yr un modd, mewn aelwydydd yn ardaloedd mwy gwledig y Fro, mae dibyniaeth arsystemau gwresogi olew, nad yw'r cap ar brisiau ynni yn berthnasol iddynt, wedi golygu bod yr aelwydydd hyn yn agored i brisiau olew anwadal a chynnydd sylweddol mewn prisiau. Yn yr un modd, i aelwydydd yn ardaloedd mwy gwledig y Fro, mae dibynnu ar systemau gwresogi sy'n defnyddio olew nad ydynt yn rhan o'r mesurau cymorth ynni yn eu gadael yn agored i amrywiadau mewn prisiau olew a chodiadau sylweddol mewn prisiau. Mae'r cynnydd hwn mewn prisiau yn gwasgu ar gyflogau a chymorth budd-daliadau'n gysylltiedig ag incwm, gan effeithio'n arbennig ar yr aelwydydd tlotaf â'r lleiaf o gapasiti yn eu cyllideb i liniaru'r prisiau uwch. Wrth i'r pwysau hyn gynyddu, ceir pryderon y gallai aelwydydd gael eu gorfodi i fynd i ddyled ffurfiol ac anffurfiol, a'u gwthio i mewn i dlodi tanwydd a bwyd, a fydd yn effeithio ar eu llesiant meddyliol a chorfforol.

Er bod nifer o gynlluniau wedi cael eu cyflwyno gan y llywodraeth i leihau'r baich ar aelwydydd yn sgil y cynnydd mewn prisiau ynni, ceir pryder y gallai'r pwysau cynyddol oherwydd y cynnydd mewn costau byw achosi i anghydraddoldeb fagu gwreiddiau dyfnach ym Mro Morgannwg, gan wthio rhai preswylwyr i brofi caledi am y tro cyntaf, a chaethiwo rhai sydd eisoes yn profi amddifadedd a lefelau is o lesiant yn y sefyllfa honno.



# BETH RYDYCH CHI WEDI'I DDWEUD WRTHYM

Wrth ddatblygu ein Hasesiad Llesiant a'n Cynllun Llesiant rydym wedi gwneud gwaith ymgysylltu ac ymgynghori helaeth â chymunedau er mwyn pennu ein blaenoriaethau.

**Drwy ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, rydym wedi defnyddio'r canlyniadau i lywio a llunio ein Cynllun Llesiant a'i Amcanion.**

Mae hyn wedi bod yn fodd i sicrhau bod blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y Fro.

**Dyma rai o'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd gennym i lywio'r Cynllun Llesiant:**

- **Digwyddiadau ymgysylltu â phobl ifanc yn ystod yr haf**
- **Gweithdy Rhanddeiliaid y BGC**
- **Arolwg Beth am Sgwrs**
- **Ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant**
- **Ymgynghoriad ar Fywyd yn y Fro**
- **Gweithdy'r Dyfodol 3 Gorwel ar Gostau Byw**
- **Fforwm Ymgynghorol ar Gydraddoldeb**
- **Cyfarfod Cyfnewid BGC/Cynghorau Tref a Chymuned**
- **Gweithdy Blaenoriaethau Strategol BGC y Fro, BGC Caerdydd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)**
- **Ymgynghori am 12 wythnos ar y cynllun drafft gan gynnwys arolwg ar-lein**
- **Trafodaethau am newid hinsawdd a chostau byw gyda'r Cyngor Ieuenctid**
- **Digwyddiadau ymgysylltu oed gyfeillgar**

Yn ogystal â'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnwyd gan y BGC wrth ddatblygu'r Asesiad a'r Cynllun Llesiant, rydym hefyd wedi ystyried ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu eraill a gyflawnwyd gan bartneriaid, gan gynnwys sgwrs 'Natur a Ni' Cymru gyfan, a gynhaliwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yr ymgynghoriad ar gyllideb Bro Morgannwg a'r ymgynghoriad ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.







> "O'r cychwyn cyntaf, mae BGC y Fro wedi ymrwymo i ymagwedd gydweithredol gref, ac yn cydnabod yr angen am fwy o ymglymiad gan ystod o bartneriaid, ac i breswylwyr gael dweud eu dweud."

Pwrpasrhai o'r gweithgareddau hyn oedd deallsafbwyntiau'r cyhoedd a chael gwybod o lygad y ffynnon beth yw eu blaenoriaethau. Fodd bynnag, cafodd safbwyntiau ystod o randdeiliaid eu clywed mewn gweithgareddau eraill fel Gweithdy BGC y Fro, BGC Caerdydd a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a thrafodwyd blaenoriaethau strategol ar draws partneriaethau.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol o 12 wythnos, gwnaed nifer o sylwadau ar y cynllun lles drafft gan amrywiaeth o randdeiliaid. Roedd ymdeimlad o gefnogaeth i'r cynllun a'i amcanion yn gyffredinol, yn ogystal â rhai argymhellion ar gyfer gwella. Canmolodd sawl rhanddeiliad y ffocws ar yr argyfyngau hinsawdd a natur yn y cynllun, ac roedd y rhan fwyaf yn cefnogi dull cydweithredol o gyflawni'r amcanion.

Yn ogystal, cafwyd ymatebion ffurfiol gan sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r cynllun drafft ac awgrymiadau ar gyfer ei wella, sydd wedi'u hymgorffori yn y fersiwn terfynol. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys awgrymiadau ailfformadu, ystyried amserlenni a monitro camau gweithredu, a mwy o bwyslais ar ddiwylliant.





> “Roedd canmol hefyd i'r gwaith ymgysylltu a'r cydweithio a wnaed i ddatblygu'r cynllun ac anogaeth i barhau â'r arfer hwn. Roedd y cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn cynnwys arolwg ar-lein a ddenodd 107 o ymatebion. Daeth nifer o themâu i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda newid hinsawdd yn fater a esgorodd ar amrywiaeth o ran barn.”

Roedd llawer o gefnogaeth i warchod ein hamgylchedd a chynyddu mannau gwyrdd. Fodd bynnag, cafwyd rhai ymatebion a oedd yn cwestiynu lefel blaenoriaeth gweithredu ar newid hinsawdd ar gyfer sefydliadau lleol. Yn ogystal, roedd ffocws ar gyfathrebu gan fod llawer o ymatebwyr wedi pwysleisio pwysigrwydd gwrando ar ein cymunedau. Roedd cymysgedd o ymatebion gyda rhai yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu ac yn gofyn am fwy o ryngweithio, tra bod eraill yn cytuno â'r amcanion yn y cynllun gan amlygu bod y gwaith ymgysylltu yn effeithiol.


Drwy gydol ein proses ymgysylltu rydym wedi coladu a thrafod y themâu a'r blaenoriaethau allweddol a gynhyrchwyd. Roedd themâu cyffredin yn codi ar draws yr holl ymgynghoriadau, gan ddangos bod gan bobl ynn y Fro flaenoriaethau penodol, a'u bod yn disgwyl i wasanaethau cyhoeddus ymateb i'r blaenoriaethau hynny.








> "Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r amryfal weithgareddau ymgysylltu wedi siapio ein Cynllun a bydd yn parhau i siapio ein gwaith wrth inni gyflawni ein Hamcanion a chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn y Cynllun hwn, a sicrhau ein bod yn cyfrannu at yr holl Nodau Llesiant cenedlaethol."




Roedd y gefnogaeth tuag at faterion yn gysylltiedig â'r newid hinsawdd yn arbennig o amlwg, fel cynyddu ynni adnewyddadwy a gwella ansawdd yr aer yn y Fro. Cafwyd cefnogaeth hefyd tuag at fwy o ddulliau teithio egnïol, gan gynnwys lonydd beicio, yn ogystal â sicrhau bod trafnidiaeth ar gael yn rhwyddach, ac yn fwy cynaliadwy a fforddiadwy. Roedd gwella mannau gwyrdd a chynyddu bioamrywiaeth yn flaenoriaethau allweddol wrth i bobl ystyried yr amgylchedd a'u llesiant eu hunain. Ar ben hynny, roedd lleihau gwastraff, gan gynnwys bwyd ac ynni, yn flaenoriaeth bwysig gyda phobl yn awgrymu y dylid ysgogi economi gylchol, gan gynnwys mwy o ailgylchu ac ailddefnyddio. Roedd y galw i gynhyrchu mwy o fwyd yn lleol yn gysylltiedig â hyn, gyda rhai'n gofyn am fwy o randiroedd a gerddi cymunedol.

Yn ogystal â hynny, roedd themâu cyffredin yn codi'n gysylltiedig â chreu lleoedd a seilwaith, a oedd yn cynnwys blaenoriaethau fel gwella mynediad at wasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Roedd llawer o bobl y buom yn ymgynghori â nhw yn codi pryderon ynghylch mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus a mynediad gwael at y rhyngrwyd, yn enwedig yn y Fro wledig. Yn ogystal â hynny, roedd cyfleusterau cyhoeddus fel toiledau a seddau hefyd yn flaenoriaeth, ynghyd â thrwsio palmentydd anwastad. Roedd cyfleoedd i gynnal gweithgareddau i bobl ifanc yn arbennig yn destun pwysig, a oedd yn gysylltiedig â phryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Adleisiodd y Cyngor Ieuenctid bryderon ynghylch newid hinsawdd a'r argyfwng costau byw y mae grwpiau eraill wedi'u lleisio. Yn ogystal, roedd gan aelodau'r Cyngor Ieuenctid farn gref ar y ddarpariaeth drafnidiaeth gyhoeddus, gan ddadlau y dylid ei gwneud yn fwy hygyrch a fforddiadwy i bobl ifanc.

Maer'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â'r nod o wneud y Fro yn ardal oed gyfeillgar, gyda phobl o bob grŵp oedran yn tueddu i ystyried y materion hyn yn bwysig.



# EIN HAMCANION LLESIANT




## Wrth ddatblygu ein tri Amcan Llesiant newydd rydym wedi ystyried yr ystod o wybodaeth yn yr Asesiad Llesiant a'r hyn sydd eisoes ar waith yn lleol ac yn rhanbarthol.

Rydym yn hyderus y gallwn, wrth gyflawni'r Amcanion hyn, ddylanwadu ar ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau ar draws y Fro, gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol preswylwyr ac ymwelwyr, a thros oes y Cynllun y gallwn wneud y mwyaf o'n cyfraniad at y Nodau Llesiant Cenedlaethol yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Dylid ystyried ein Hamcanion Llesiant a'n gweithgareddau arfaethedig yng nghyd-destun yr ystod o gynlluniau, strategaethau a gweithgareddau cydweithredol eraill sy'n digwydd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach. Fel y manylir yn adran 7 y cynllun, Beth a Ddywedoch Wrthym, rydym wedi bod yn siarad â gwahanol grwpiau, sefydliadau a phobl o bob oed yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun ac mae'r sgyrsiau hyn wedi helpu i lunio ein Hamcanion a'r camau y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni.

> "Dangosodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gennym ar ein Hasesiad Llesiant fod pobl yn teimlo ein bod wedi trafod y materion cywir a bod yr Asesiad yn adlewyrchu eu profiadau o'r Fro. Yn naturiol, mae ein Hamcanion yn eang eu cwmpas, ond credwn eu bod yn creu fframwaith cadarn ar gyfer ein gweithgareddau."

Maent yn adlewyrchu'r angen i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ac yn rhoi'r cyfle i integreiddio gwaith y BGC â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, y Brifddinas-Ranbarth a gweithgarwch partneriaeth arall. Maent yn adlewyrchu'r hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym sy'n bwysig iddynt, ond hefyd ein canfyddiadau o ran annhegwch yn y Fro a waethygwyd gan bandemig COVID-19, fel yr amlygwyd yn **Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro** yn 2020 ac y gallai'r argyfwng costau byw eu gwaethygu eto. Maent hefyd yn darparu fframwaith hyblyg a fydd yn cefnogi gwaith y BGC ac yn sicrhau hirhoedledd y Cynllun dros y pum mlynedd nesaf.





Mae pob un o'r tri Amcan yn adlewyrchu'r her sy'n gysylltiedig â'r angen i weithredu nawr, yn ogystal ag ymagwedd fwy hirdymor lle mae angen i sefydliadau ac unigolion newid ymddygiad, ynghyd â dealltwriaeth well o dueddiadau'r dyfodol ac effaith ein camau gweithredu a'n penderfyniadau.

- **Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd**
- **Bro sy'n fwy iach ac egnïol**
- **Bro fwy cyfartal a chysylltiedig**

Mae'r Amcanion hyn yn darparu fframwaith i'r BGC ac i eraill, gan gynnwys partneriaethau cyflin, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau o flaen ein preswylwyr, a sicrhau ein bod yn parhau i gynyddu ein cyfraniad at nodau llesiant cenedlaethol hyd yr eithaf.

Mae'r diagram uchod yn dangos rhyng-gysylltedd ein tri Amcan Llesiant, a'r modd y bydd gwahanol raglenni gwaith a gweithgarwch partneriaeth yn cyfrannu at gyflawni ein Hamcanion. Defnyddiwyd y diagram hwn yn rhan o'n gwaith ymgysylltu i ddatblygu'r Cynllun drafft, ac mae'n pwysleisio'r integreiddio ar draws y gweithgareddau hyn, a phwysigrwydd gweithio tuag at ganlyniadau cyffredin ar draws y Fro a'r rhanbarth ehangach. Mae'n dangos sut y gall cymryd camau penodol mewn un maes gwaith esgor ar fuddion lluosog ar draws yr amcanion. Bydd canolbwyntio ar yr Amcanion newydd hyn, sy'n adeiladu ar Gynllun Llesiant 2018-2023 a chyfres gyntaf y BGC o Amcanion yn ein galluogi i gydweithio i fynd i'r afael â'r prif broblemau a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant.

**Manylir ar gwmpas pob amcan isod a cheir rhagor o wybodaeth am y gweithgareddau a'r prosiectau amrywiol sy'n rhan o'r camau a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn yn yr adran Cyflawni Ein Hamcanion Lles.**




> "Bro sy'n fwy cydnerth gwyrdd - drwy ddeall a gwneud y newidiadau sydd eu hangen fel unigolion, cymunedau a sefydliadau mewn ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur."

Cafodd yr argyfyngau hinsawdd a natur, a'r angen i gydweithio er mwyn newid ein hymddygiad fel unigolion, cymunedau a sefydliadau eu hamlygu yn ein Hasesiad Llesiant. Bydd gwaith i gyflawni'r Amcan hwn yn adeiladu ar gyflawniad yr Amcan Llesiant yng Nghynllun Llesiant 2018-23 'Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi ein hamgylchedd' a bydd gweithgareddau'n parha i gyflawni Siarter Argyfwng Hinsawdd y BGC. Byddwn yn parhau i arwain drwy osod esiampl, i gymryd camau cadarnhaol, i leihau ein heffaith a hyrwyddo'r angen i bawb weithio fel tîm i greu Cymru carbon niwtral erbyn 2050.

**Byddwn yn:**

- **Lleihau ein hallyriadau i liniaru effeithiau'r newid hinsawdd gan ymaddasu i'w effeithiau ar yr un pryd**
- **Fwy caredig i'n hamgylchedd**
- **Troi'n iachach**
- **Troi'n sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.**

Bydd yr holl bartneriaid yn sicrhau bod eu strategaethau a'u polisïau sefydliadol yn cefnogi'r Amcan hwn sy'n cyfrannu at yr holl Nodau Llesiant Cenedlaethol. Byddant yn cydnabod y cyswllt rhwng yr amgylchedd a'r economi a rôl y Brifddinas-Ranbarth, pa mor agos yw'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd a'n hiechyd a'n llesiant, a'r ffaith mai'r rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, yn dra aml, sy'n teimlo effeithiau'r newid hinsawdd fwyaf. Wrth gyflawni'r Amcan hwn byddwn ynn ystyried ffyrdd newydd o weithio ee caffael, defnyddio technoleg a all hefyd helpu i leihau'r angen i deithio a helpu gydag unigrwydd ac arwahanrwydd, a gwella mynediad at wasanaethau heb fod angen teithio bob amser. Mae'r Amcan hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd ein cyfrifoldeb byd-eang fel unigolion a sefydliadau a'r angen i ddeall effaith y penderfyniadau a wnawn.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, y cefnogi datblygiad sgiliau a swyddi newydd yn gysylltiedig â'r economi werdd, ac yn datblygu gwaith ar y Siarter Teithio, a thrwy Fwyd y Fro i annog newid mewn ymddygiad, ac annog pobl i 'feddwl yn lleol' wrth brynu neu dyfu bwyd.

Wrth gyflawni'r amcan hwn, byddwn yn canolbwyntio ar ein hamgylchedd, ond bydd y gwaith hefyd yn cyfrannu at fynd i'r afael ag annhegwch ac amddifadedd a gwella mynediad at wasanaethau. Mae gwaith ar newid hinsawdd ac mewn ymateb i'r argyfwng natur yn rhoi cyfle i ddod â chymunedau ynghyd ac i bobl ar draws y cenedlaethau gydweithio i ddylanwadu ar yr hyn a wnawn a sut yr ydym yn ei wneud. Mae'r amgylchedd yn rhan o ddiwylliant y Fro ac yn cefnogi ein llesiant corfforol a meddyliol.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch pam fod angen mynd i'r afael â'r newid hinsawdd a gwerthfawrogi a gwarchod ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol yn **adroddiad yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth** o fewn yr Asesiad Llesiant a hefyd yn yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2020** a oedd yn tynnu sylw at yr angen am newid ar draws ein systemau trafnidiaeth, bwyd ac ynni.

# Bro sy'n fwy iach ac egnïol -


## drwy annog a galluogi pobl o bob oed i fod yn fwy egnïol ac i hyrwyddo manteision mabwysiadu ffordd iachach o fyw.


Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i wella iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol preswylwyr. Roedd yr Asesiad Llesiant yn amlygu'r cysylltiadau rhwng yr amgylchedd a'n llesiant, a'r anghydraddoldebau iechyd a geir yn y Fro. Amlygwyd hyn hefyd yn **Adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro yn 2020**, a ddangosodd effaith pandemig COVID-19 ar ein cymunedau a sut yr oedd wedi gwneud yr annhegwch presennol yn waeth fyth. Rhagwelir y gallai'r annhegwch hyn barhau i gynyddu gyda'r argyfwng costau byw presennol.


Gwyddom fod y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o fodloni canllawiau gweithgarwch corfforol a bod cynorthwyo'r rhai lleiaf egnïol yn dod â llawer mwy o fanteision i iechyd a lles nag annog y rhai sydd eisoes yn egnïol i wneud ychydig mwy, felly bydd ffocws ar lle mae'r angen mwyaf. Mae yna gydnabyddiaeth hefyd y gall yr argyfwng costau byw fod yn rhwystr arall i fod yn fwy egnïol.


Bydd gwaith yn adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer y **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol** a bydd hefyd yn cael ei symud ymlaen trwy Fwrdd Mwyhau Ataliaeth Caerdydd a'r Fro sy'n canolbwyntio ar faterion iechyd cyhoeddus allweddol yn y rhanbarth. Yn ogystal, bydd gwaith yn parhau er mwyn gweithredu'r **Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach** a thrwy **Bwyd y Fro** a'r Siarter Bwyd. Bydd gwaith i gyflawni'r amcan hwn hefyd yn rhan o weithgareddau lleol i gyflawni **Strategaeth Pwysau Iach**: **Cymru Iach Llywodraeth Cymru.** Bydd gweithio i wneud y Fro yn fwy **Oed Gyfeillgar** hefyd yn cyfrannu at yr amcan hwn wrth i ni sicrhau bod y Fro yn lle gwell i heneiddio ynddo.

Bydd gwaith i gyflawni'r Amcan hwn yn datblygu gwaith a ddechreuwyd wrth gyflawni'r amcanion yng Nghynllun Llesiant 2018-23, 'i leihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd' a 'rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd'. Byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n grwpiau ieuenctid i gynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc, ac i gydnabod pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a'r angen i fynd i'r afael â materion sydd wedi codi yn sgil y pandemig. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gall presgripsiynau cymdeithasol gyfrannu at wella ein hiechyd a'n llesiant, gan adeiladu ar waith sy'n digwydd eisoes yn y Fro.




Bydd gwaith i gyflawni'r Amcan hwn yn cyfrannu at nifer o'r Nodau Llesiant Cenedlaethol, ac yn arbennig at greu Cymru Iachach a Chymru sy'n Fwy Cyfartal.

*Ceir esboniad pellach ynghylch pam bod hyn yn ffocws allweddol i waith yn y Fro yn yr **Adroddiad Iechyd a Chymunedau** o fewn yr Asesiad Llesiant.*

## Bro fwy cyfartal a chysylltiedig – drwy fynd i'r afael â'r annhegwch a geir ar draws y Fro, ymgysylltu â'n cymunedau a chynnig cyfleoedd a chymorth gwell i wneud gwahaniaeth parhaol.

Amlygodd yr asesiad lles fod annhegwch sylweddol yn parhau ar draws y Fro. Mae'r BGC wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r annhegwch hwn a gweithio gyda'n cymunedau mwy difreintiedig ac oddi mewn iddynt i sicrhau newidiadau cadarnhaol. Ar gyfer hyn, bydd angen gwneud gwaith ymgysylltu sylweddol a ffyrdd newydd o weithio i sicrhau ein bod yn cyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i'n gwasanaethau a'n systemau. Bydd gwaith i gyflawni'r Amcan hwn yn adeiladu ar Amcanion y Cynllun Llesiant 2018-23, sef 'galluogi pobl i gymryd rhan, i gyfranogi yn eu cymunedau lleol ac i siapio gwasanaethau lleol', 'lleihau tlodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd' a 'rhoi'r dechrau gorau i blant mewn bywyd'. Bydd gwaith hefyd yn cyfrannu at nifer o'r nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys: Cymru lewyrchus, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Ceir esboniad pellach ynghylch pam bod hyn yn ffocws allweddol i waith yn y Fro yn yr **Adroddiad Addysg a'r Economi** a'r **Adroddiad Iechyd a Chymunedau** o fewn yr Asesiad Llesiant.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, byddwn yn gweithio gyda'n cymunedau, yn meithrin cydberthnasau ac yn defnyddio gwasanaethau presennol (fel Dechrau'n Deg, prosiectau tlodi bwyd a grwpiau cymunedol) i nodi sut y gallwn wneud gwahaniaeth a chymryd camau hirdymor ac ataliol i fynd i'r afael â'r annhegwch sy'n bodoli. Byddwn yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw presennol a'r hyn y mae angen inni ei wneud ar unwaith, ond hefyd ar sut i feithrin cydnerthedd ar gyfer y dyfodol a mynd i'r afael ag amddifadedd sydd wedi magu gwreiddiau dwfn a'i effeithiau. Wrth gyflawni'r Amcan hwn byddwn hefyd yn ystyried beth mae diwylliant yn ei olygu i bobl ar draws y Fro, yr amrywiaeth ar draws ein cymunedau a phwysigrwydd y Gymraeg.

Mae gwaith a fydd yn cyfrannu at yr Amcan hwn yn cynnwys gwaith ar gynhwysiant digidol ee drwy **Cael y Fro ar-lein,** annog gwirfoddoli ee drwy **Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)** a hefyd drwy brosiect y BGC, **Gwirfoddolwyr | Gwerth yn y Fro.** Mae gwaith ymgysylltu a mapio pellach yn cael ei wneud er mwyn helpu i adnabod problemau a chanfod atebion, a byddwn yn parhau i adeiladu ar waith yn gysylltiedig â thlodi bwyd, gan gynnwys **Prosiect Mynediad at Fwyd Llanilltud Fawr.** Yn ogystal â hyn, bydd gwaith **Prifddinas-Ranbarth Caerdydd** yn gwneud cyfraniad allweddol tua at gynnig cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau, ynghyd â gwaith timau cyflogadwyedd lleol, er enghraifft, a choleg Caerdydd a'r Fro. Ein Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, **Bro Ddiogelach** hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at yr Amcan hwn.







# CYFLAWNI EIN HAMCANION LLESIANT

Fel y disgrifir drwy'r Cynllun hwn mae'r ystod o weithgareddau a gyflawnir gan y BGC ac yn gyfochr ag ef yn amrywio'n aruthrol.

Er mwyn cyflawni ein tri Amcan Llesiant a mynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol sy'n deillio o'r Asesiad Llesiant, byddwn yn adeiladu ar ystod o waith sydd eisoes ar y gweill, gan gynyddu momentwm lle bo angen a sicrhau bod prosiectau a gwasanaethau'n addasu ac yn newid yn ôl yr angen i gyflawni ein Hamcanion.

Yn ogystal â hyn, rydym wedi nodi tair ffrwd waith â blaenoriaeth lle mae angen ffocws penodol:

- **Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur**
- **Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau sy'n profi'r lefelau uchaf o amddifadedd**
- **Datblygu i fod yn Oed Gyfeillgar**

Rydym wedi cytuno ar 19 cam a fydd gyda'i gilydd yn ein helpu i gyflawni ein Hamcanion Llesiant ac yn gwella gwaith ac effaith y BGC. Mae'r camau'n torri ar draws nifer o brosiectau a gwasanaethau, a manylir arnynt isod.

Mae'r camau hyn yn darparu fframwaith o'r ystod eang o weithgarwch y bydd partneriaid yn ei gyflawni dros oes y cynllun. Bob blwyddyn, fel rhan o'r broses adrodd flynyddol, bydd y BGC yn nodi rhai o'r prif bethau i'w cyflawni ar gyfer y flwyddyn i ddod:

1 Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.

2 Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.

3 Cynyddu'r defnydd o ddata lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a defnyddio dull sy'n seiliedig i raddau mwy ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau a diwygio gwasanaethau ar draws gwaith y BGC gan gynnwys datblygu sylfaen dystiolaeth y BGC.

4 Defnyddio modelau fel y model 3H i gefnogi'r gwaith o feddwl yn y tymor hir a newid systemau ar draws y gweithgareddau a nodir yn y cynllun lles.

5 Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol.

6 Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael mynediad at gyllid ac alinio gweithgareddau i gynyddu galluedd, sgiliau ac adnoddau i gyflawni blaenoriaethau yn y Fro a'r rhanbarth ehangach.

7 Ymgysylltu â'n plant a'n pobl ifanc a'u cynnwys er mwyn deall eu pryderon a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol yn well a sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu eu barn a'u hanghenion.

8 Hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol a galluogi gwell dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau gyda ffocws ar ynni, yr economi gylchol, bwyd, bioamrywiaeth a theithio.

9 Cyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd gan gynnwys datgarboneiddio ein hasedau, prosesau caffael a'n gwasanaethau.

10 Dangos arweinyddiaeth a chymryd camau i leihau amlygiad ein cymunedau i risgiau amgylcheddol, e.e. effaith tywydd eithafol a llygredd.

11 Gwella iechyd ein ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r angen i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r argyfwng natur.

12 Cymryd rhan mewn dull mwy integredig o ymdrin ag ystad y sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n gwaith yn ymwneud â'r newid hinsawdd a natur.

13 Gwella iechyd a lles ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar waith atal a lefelau gweithgarwch corfforol, deiet, y nifer sy'n cael brechlynnau a gwaith sgrinio.

14 Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd fel rhan o raglen waith integredig a chydweithredol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu a dull ataliol sydd wedi'i dargedu'n well i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

15 Gweithio mewn partneriaeth i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar, gan sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r gwasanaethau, y cymorth a'r cyfleoedd cywir yn lleol a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a gwella lles.

**16** Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu'n cymunedau a'n staff i ddelio ag effeithiau costau byw, e.e. y cynnydd yng nghostau bwyd, ynni a theithio.

**17** Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy raglenni gwaith a ffrydiau ariannu presennol i fynd i'r afael ag annhegwch a gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, e.e. Dechrau'n Deg a rhaglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant.

**18** Ymgysylltu â'r gymuned a mapio asedau i ddeall ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn well a chynnwys y bobl sy'n byw yno a'r sefydliadau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer newid a gwelliant.

**19** Cefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiad agos â lles amgylcheddol ac iechyd a chodi ymwybyddiaeth ohono.





*Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi esboniad pellach ynghylch sut y cyflawnir y camau uchod, a'r ystod o wasanaethau a phrosiectau a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein tri Amcan Llesiant.*

Darperir rhagor o wybodaeth am y meysydd gwaith canlynol a fydd yn ffocws allweddol i'r BGC.

- **Ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur**
- **Gweithio gyda'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau sy'n profi'r lefelau uchaf o amddifadedd**
- **Datblygu i fod yn Oed Gyfeillgar**

**Manylir ar sut mae pob un o'r 19 cam yn cyfrannu at y ffrydiau gwaith â blaenoriaeth, yr amcanion lles a'r nodau lles cenedlaethol ar dudalennau 13 a 14.**

# YMATEB I'R ARGYFYNGAU HINSAWDD A NATUR

## Bydd partneriaid y BGC yn cydweithio i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ac i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd.

Byddwn yn parhau i arwain drwy osod esiampl, yn cymryd camau cadarnhaol, yn lleihau ein heffaith ac yn hyrwyddo'r angen i bawb weithio fel tîm i greu Cymru carbon niwtral erbyn 2050, a sicrhau bod y daith tuag at Gymru sero net yn cael ei rheoli'n ofalus fel ei bod yn gyfiawn a theg. Rydym hefyd yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb byd-eang i gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol a gweithredu rhaglen newid ymddygiad ar draws ein sefydliadau, gan ganolbwyntio ar deithio, y defnydd o ynni a bwyd. Mae gan y BGC hefyd rôl bwysig fel arweinydd a chorff dylanwadol, ac mae hyn yn cynnwys pwysleisio'r cysylltiadau â **ffframweithiau economaidd** a strategaethau twf lleol a rhanbarthol ar draws ystod o feysydd fel ynni, yr economi a sgiliau a gwaith.

**Fel y nodir yn ein Siarter, byddwn yn:**

- Lleihau ein hallyriadau i liniaru effeithiau'r newid hinsawdd gan ymaddasu i'w effeithiau ar yr un pryd
- Mwy caredig i'n hamgylchedd
- Iachach
- Troi'n sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

**Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd ac yn ymateb i'r argyfwng natur byddwn yn:**

- Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.
- Hyrwyddo newidiadau ymddygiad cadarnhaol a galluogi gwell dealltwriaeth o'n heffaith ar yr amgylchedd ar draws ein sefydliadau a'n cymunedau gyda ffocws ar ynni, yr economi gylchol, bwyd, bioamrywiaeth a theithio.
- Cyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd gan gynnwys datgarboneiddio ein hasedau, prosesau caffael a'n gwasanaethau.
- Dangos arweinyddiaeth a chymryd camau i leihau amlygiad ein cymunedau i risgiau amgylcheddol, e.e. effaith tywydd eithafol a llygredd.
- Gwella iechyd ein ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth a'r angen i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r argyfwng natur.
- Cymryd rhan mewn dull mwy integredig o ymdrin ag ystad y sector cyhoeddus (adeiladau a daliadau tir) i wella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a'n gwaith yn ymwneud â'r newid hinsawdd a natur.
- Ymgysylltu â'r gymuned a mapio asedau i ddeall ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn well a chynnwys y bobl sy'n byw yno a'r sefydliadau lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer newid a gwelliant.
- Cefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiad agos â lles amgylcheddol ac iechyd a chodi ymwybyddiaeth ohono.

Goruchwylir y gwaith hwn gan Grŵp Argyfwng Hinsawdd a Rheoli Asedau'r BGC, ac fe'i harweinir gan Gyngor Bro Morgannwg a Chyfoeth Naturiol Cymru, gyda phob partner yn cymryd camau i ymateb i'r argyfyngau a chyfrannu at sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, a Chymru sero net erbyn 2050. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ein Hamcanion i fod yn Fro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd, ac yn Fro sy'n fwy iach ac egnïol.

Drwy'r Cynllun Llesiant hwn mae'r BGC yn ailbwysleisio ei ymrwymiad i arwain yn ôl esiampl er mwyn mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r Amcanion a'r Camau a nodir yn y Cynllun yn tystio i'r ymrwymiad hwn ac yn dangos sut y gallwn weithio gyda'n gilydd, drwy waith partneriaeth effeithiol, a chyda'n cymunedau i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen ar draws y systemau Bwyd, Ynni a Thrafnidiaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r her aruthrol hon.

# GWEITHIO GYDA'R BOBLSY'N BYW YN EIN CYMUNEDAU SY'N PROFI'R LEFELAU UCHAF O AMDDIFADEDD

Bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhwng ein hardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig, gan fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le.

Mae'r **Asesiad Llesiant** wedi tynnu sylw at y gwahaniaethau ar draws y Fro a'r modd y mae pandemig Covid-19 wedi gwaethygu'r anghydraddoldebau hyn. Yn ogystal â hyn, bydd yr argyfwng costau byw presennol, yn enwedig y cynnydd mewn costau ynni a bwyd, yn effeithio hyd yn oed yn fwy ar y rhai sydd eisoes mewn tlodi.

Bydd gwaith yn parhau ar draws prosiectau a phartneriaethau presennol isicrhau ffocws ar y rhai mwyaf anghenus. Mae hyn yn cynnwys Dechrau'n Deg, prosiectau tlodi bwyd a ffocws drwy lawer o'r prosiectau a'r rhaglenni a amlygir yn yr adran hon ee Symud Mwy, Bwyta'n Iach, Cynyddu Gwaith Atal a Bro Ddiogelach.

Ceir ffocws arbennig ar dair Ardal Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yn y Barri - Gibbonsdown 2, Court 3 a Buttrills 2 sydd wedi'u nodi fel yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg, ac sydd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Mae'r BGC wedi ymrwymo i ymgysylltu a gweithio gyda chymunedau a sefydliadau lleol i nodi a gweithredu'r newidiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â'r annhegwch hwn. Bydd gwaith yn parhau gydag ymarfer mapio i ddeall y tair cymuned hon yn y Barri yn well a dechrau meithrin cydberthnasau parhaus, y gellir ymddiried ynddynt.Bydd y gwaith hwn yn cynnwys pennu rhanddeiliaid allweddol yr ardaloedd, pwy sy'n bwy yno, dadansoddiad o'r demograffeg lleol, pa sefydliadau cymunedol/trydydd parti sy'n gweithredu'n lleol, y prif gyfleusterau cymunedol a'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn yr ardal. Bydd yr adborth o drafodaethau cynnar â rhanddeiliaid allweddol yn helpu i lywio'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltuar gyfer y gymuned, ac arsail hynnybyddwn yn gallu dechrau nodi'r camau sydd eu hangen a phwy fydd yn eu gweithredu.

Mae'r BGC yn awyddus i archwilio ffyrdd newydd o weithio a phennu'r camau i newid pethau er gwell yn yr ardal leol. Mae'n cydnabod bod angen i'r gwaith hwn esblygu a chyfuno ystod o wybodaeth a gweithgareddau er mwyn creu newid hirdymor. Mae hyn yn cynnwys cael gwell dealltwriaeth o ddiwylliant ac amrywiaeth ein cymunedau gwahanol a hefyd pa waith atal y mae angen ei wneud.

Arweinir y gwaith hwn ar ran y BGC i ddechrau gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'n adlewyrchu canfyddiadau allweddol yn ein Hasesiad Llesiant, a bydd yn cyfrannu'n arbennig at ein Hamcanion Llesiant i greu Bro sy'n fwy iach ac egnïol a Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig.

**Er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch ar draws ein cymunedau mwyaf difreintiedig byddwn yn:**

- Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.
- Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol.
- Gwella iechyd a lles ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar waith atal a lefelau gweithgarwch corfforol, deiet, y nifer sy'n cael brechlynnau a gwaith sgrinio.
- Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd fel rhan o raglen waith integredig a chydweithredol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu a dull ataliol sydd wedi'i dargedu'n well i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.

- Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu'n cymunedau a'n staff i ddelio ag effeithiau costau byw, e.e. y cynnydd yng nghostau bwyd, ynni a theithio.
- Gwneud y mwyaf o gyfleoedd trwy raglenni gwaith a ffrydiau ariannu presennol i fynd i'r afael ag annhegwch a gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig, e.e. Dechrau'n Deg a rhaglenni cyflogadwyedd a hyfforddiant.
- Cefnogi gwaith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiad agos â lles amgylcheddol ac iechyd a chodi ymwybyddiaeth ohono.

**Bydd y camau a amlinellir yn adran 3 hefyd yn cyfrannu at y flaenoriaeth hon, yn ogystal â gweithgareddau a gyflawnir yn rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a bod yn oed gyfeillgar.**

Drwy'r Cynllun Llesiant hwn, mae'r BGC wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn ac i sicrhau, lle bo modd, fod y pwysau hyn yn cael eu lliniaru. Trwy nifer o ffrydiau gwaith presennol a ddechreuwyd drwy Gynllun Llesiant 2018-2023, a thrwy'r camau a nodir yn erbyn yr Amcanion yn y Cynllun hwn, bydd partneriaid yn parhau i weithio gyda'i gilydd, a chyda chymunedau, i ddeall a mynd i'r afael â ffactorau sy'n ysgogi anghydraddoldeb. Bydd y gwaith yn sicrhau bod holl breswylwyr Bro Morgannwg yn cael cyfle cyfartal i fyw bywyd iach, hapus a chynaliadwy.

# DATBLYGU’N FRO SY’N OED GYFEILLGAR

**Diffinnir Cymunedau Oed Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd fel cymunedau lle mae’polisïau, gwasanaethau, lleoliadau a strwythurau yn cefnogi pobl a’u galluogi i heneiddio’n dda’.**

Ym mis Ebrill 2021 ymrwymodd partneriaid i gydweithio, gyda chefnogaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn, i fwrw ymlaen â gwaith i ennill Statws Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd.

Nodir y ddemograffeg bresennol a demograffeg y dyfodol yn yr Asesiad Llesiant. Rhagwelir y ceir cynnydd o 5,266 yn y boblogaeth 65-84 oed ym Mro Morgannwg rhwng 2019 a 2039, a chynnydd o 2,904 yn y boblogaeth 85 oed neu’n hŷn. Mae adroddiad Iechyd a Chymunedau’r Asesiad yn amlygu ymchwil a gwybodaeth yn erbyn sawl ffactor sy’n cael effaith benodol ar bobl wrth iddynt fynd yn hŷn o dan yr adran Heneiddio’n Dda. Gellir gweld yr adroddiad **yma.**


Er y gellir profi unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol ar unrhyw oed, gwyddom fod mwy o berygl i bobl hŷn brofi hynny. Mae disgwyl i nifer y bobl sy’n byw gyda Dementia ym Mro Morgannwg hefyd gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at 2040. Yn ogystal â hyn, rhagwelir y bydd nifer y gofalwyr didâl yn cynyddu ar draws pob grŵp oedran, ac mae’r nifer hwnnw’n tyfu gyflymaf ymhlith rhai sy’n 65 oed neu’n hŷn. Dyma rai o’r ffactorau sy’n amlygu pam ei bod hi mor bwysig sicrhau ein bod ni fel partneriaeth yn gweithio gyda’n gilydd i wneud y Fro yn gyfeillgar i oed.

Bydd gwaith i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar ac yn lle gwell i bobl heneiddio ynddo yn gwneud y Fro yn lle mwy cyfeillgar i bawb a bydd yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i barchu a gwerthfawrogi pobl hŷn o fewn ein cymunedau gan gydnabod eu cyfraniad, eu hanghenion a’u dyheadau gan gynnwys pobl hŷn yn weithredol wrth wneud penderfyniadau lleol ac wrth ddylunio gwasanaethau. Bydd y gwaith hwn hefyd o fudd i’r rhai sy’n gofalu am bobl ac yn helpu gyda’u lles a bydd yn cael ei wneud ar y cyd â gwaith y bwrdd partneriaeth rhanbarthol ac yn arbennig eu ffocws ar heneiddio’n dda. Mae’r gwaith hwn hefyd yn gyson â’r blaenoriaethau yn y **Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: Cynllun Cyflawni.**

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi 8 maes neu nodwedd sy’n elfennau hollbwysig mewn cymunedau sy’n gyfeillgar i oed, ac mae pobl hŷn wedi nodi’r rhain eu hunain.

Hyd yma rydym wedi mapio’r gwasanaethau a’r cyfleoedd sydd eisoes ar waith ar draws y Fro sy’n cyd-fynd ag 8 Maes Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Rydym hefyd wedi cynnal arolwg ar y cyd rhwng y BGC a Fforwm Strategaeth 50+ y Fro i gasglu barn preswylwyr ynghylch pa mor oed gyfeillgar yw’r Fro ar hyn o bryd. Fel rhan o gais y BGC am statws Cymuned Oed Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd sy’n dangos ein hymrwymiad i’r gwaith hwn, rydym yn datblygu siarter sy’n amlygu’r meysydd yr ydym yn canolbwyntio arnynt yn y Fro er mwyn eu gwella ochr yn ochr â chynllun gweithredu manylach a fydd yn nodi’r camau y mae angen i ni eu cymryd i ddod yn fwy oed gyfeillgar yn y Fro. Er mwyn ddatblygu’r cynllun gweithredu, byddwn yn ymgysylltu’n uniongyrchol â phobl hŷn i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd sydd bwysicaf yn lleol. Bydd y cynllun gweithredu hefyd yn ystyried canfyddiadau’r gwaith mapio, yr arolwg ymgysylltu ar y cyd, yr asesiad lles a’r asesiad o anghenion y boblogaeth. Ochr yn ochr â’r gwaith hwn, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Fforwm Strategaeth 50+ y Fro i gynyddu aelodaeth a chodi ymwybyddiaeth o’r fforwm a gwella cyfleoedd i ymgysylltu â’r agenda hon.

Bydd gwaith i ddod yn fwy oed gyfeillgar o gymorth i fynd i’r afael ag amrywiaeth eang o faterion a nodwyd yn yr Asesiad Llesiant, yn enwedig y rhai sy’n gysylltiedig â’r boblogaeth sy’n heneiddio. Bydd hefyd yn ein helpu i gyflawni ein Hamcanion ac i fod yn Fro sy’n Fwy Iach ac Egnïol ac yn Fro sy’n Fwy Cyfartal a Chysylltiedig. Bydd y gwaith hwn hefyd o gymorth i ddatblygu dealltwriaeth well o lesiant diwylliannol ledled y Fro, ac o’r modd y gall gweithgareddau diwylliannol gefnogi gwaith i fod yn oed gyfeillgar. Mae gweithgareddau dysgu’r Gymraeg yn darparu llawer o gyfleoedd fforddiadwy, gan gyfuno dysgu a chymdeithasu a gwyddys bod dysgu ail iaith yn lleihau’r risg o ddementia.



**Er mwyn gwneud y Fro yn fwy Oed Gyfeillgar byddwn yn:**

- Datblygu gwell dealltwriaeth o'n cymunedau ac ymateb i'w hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig neu ardaloedd mwy difreintiedig, i sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau'n hygyrch o ran dyluniad, trafnidiaeth, fforddiadwyedd a thechnoleg, a'u bod ar gael pan fo'u hangen er mwyn atal anghenion rhag gwaethygu.
- Cynorthwyo'r trydydd sector a hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gan gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau o wneud hyn.
- Cynyddu lefelau ymgysylltu ac ymwneud â phobl o bob oed, yn enwedig y rhai nad ydynt yn tueddu i ymgysylltu a'r rhai nas clywir yn aml, gan gynnwys trwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol.
- Gwella iechyd a lles ar draws y Fro gyda ffocws arbennig ar waith atal a lefelau gweithgarwch corfforol, deiet, y nifer sy'n cael brechlynnau a gwaith sgrinio.
- Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd fel rhan o raglen waith integredig a chydweithredol, gan sicrhau mwy o ymgysylltu a dull ataliol sydd wedi'i dargedu'n well i gyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf.
- Gweithio mewn partneriaeth i wneud y Fro yn fwy oed gyfeillgar, gan sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad i'r gwasanaethau, y cymorth a'r cyfleoedd cywir yn lleol a'u bod yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau, yn gallu dylanwadu ar ddyluniad gwasanaethau a gwella lles.
- Darparu gwybodaeth a chymorth i helpu'n cymunedau a'n staff i ddelio ag effeithiau costau byw, e.e. y cynnydd yng nghostau bwyd, ynni a theithio.

Bydd camau y manylir arnynt yn Adran 3, Gwneud Gwahaniaeth hefyd yn cyfrannu at waith i fod yn fwy oed gyfeillgar.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn arwain y gwaith hwn ar ran y BGC, gan ddefnyddio cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru hyd at fis Mawrth 2025 i gefnogi'r agenda Oed Gyfeillgar.
Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith i wneud y Fro yn fwy Oed Gyfeillgar ar gael ar **wefan y BGC.**

## Rydym wedi tynnu sylw at y tri maes allweddol y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt i gyflawni ei dri Amcan Llesiant, ac i wireddu ei weledigaeth.

Fel y soniwyd yn gynharach yn y Cynllun, mae'r BGC eisoes yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o weithgareddau, a bydd hynny'n parhau i ddatblygu. Manylir ar y gweithgareddau hyn isod a bydd gwaith yn cael ei integreiddio â'r ffrydiau gwaith â blaenoriaeth ac mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn cyfrannu at ein tri amcan lles.

### Bwrdd Cyflawni Cynyddu Gwaith Atal

NOD Y GWAITH HWN YW ADEILADU AR YR YMAGWEDDAU PARTNERIAETH CYDGYSYLLTIEDIG A DDATBLYGWYD YN RHAN O'R YMATEB I BANDEMIG COVID-19 A CHYMHWYSO'R UN EGWYDDORION I YMWREIDDIO GWAITH ATAL A LLEIHAU ANNHEGWCH; RHODDIR SYLW MANWL I DDECHRAU AR GYNYDDU NIFER Y PLANT SY'N CAEL EU BRECHU A NIFER Y BOBL SY'N MANTEISIO AR GYNLLUNIAU SGRINIO COLUDDION, YNGHYD Â CHAMAU A DDIFFINIWYD YN Y CYNLLUN SYMUD MWY BWYTA'N IACH.

Bydd hyn yn cyfrannu at waith i fynd i'r afael ag annhegwch iechyd a bydd ffocws penodol ar weithio gyda'n cymunedau mwyaf difreintiedig /grwpiau economaidd-gymdeithasol mwyaf difreintiedig, a grwpiau oedran neilltuol, i sicrhau ein bod yn cyrraedd y cymunedau mwyaf anghenus, neu'r cymunedau hynny lle mae'r nifer sy'n manteisio ar ddarpariaeth yn isel ar hyn o bryd.

Mae'r Bwrdd yn gweithio ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.

Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant i greu Bro sy'n fwy iach ac egnïol a Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Cynyddu Gwaith Atal ar Wefan y BGC.

Arweinir y gwaith hwn gan Fwrdd Cynyddu Gwaith Atal Caerdydd a'r Fro.

### Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach

DATBLYGWYD Y CYNLLUN SYMUD MWY, BWYTA'N IACH MEWN PARTNERIAETH Â BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG, BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CAERDYDD A BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO AC MAE'N CYD-FYND Â GOFYNION STRATEGAETH LLYWODRAETH CYMRU PWYSAU IACH: CYMRU IACH STRATEGAETH CYMRU IACH.

Pwysau Iach: Cymru Iach

Mae'r strategaeth hon yn nodi pedair thema allweddol: Amgylcheddau Iach, Lleoliadau Iach, Pobl Iach, Arweinyddiaeth a Galluogi Newid er mwyn cyflawni newid iach hirdymor ledled Cymru. Mae'r Cynllun Symud Mwy, Bwyta'n Iach yn ategu cyflawni'r strategaeth hon drwy annog, cynorthwyo a galluogi pobl i fod yn fwy egnïol a chael deiet iachach yng Nghaerdydd a'r Fro.

Drwy gydweithredu a chanolbwyntio ar agweddau penodol, mae'r Cynllun yn anelu i sicrhau bod pobl yng Nghaerdydd a'r Fro yn symud mwy ac yn bwyta'n iach. Mae'r Cynllun yn cynnwys 10 maes â blaenoriaeth: Lleoliadau addysg, Gweithleoedd iach, Amgylcheddau iach, Gwasanaethau pwysau iach, Gweithlu a phoblogaeth wybodus, Hysbysebu a marchnata iach, Teithio llesol, Cymunedau iach, Rhanbarth Ail-lenwi, a Chaffael bwyd iach a chynaliadwy.

Bydd camau gweithredu o dan y Cynllun hwn yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau'n gysylltiedig â'r newid hinsawdd a gwarchod ein hamgylchedd, drwy gamau'n gysylltiedig â'r genedl ail-lenwi, caffael bwyd iach a chynaliadwy a theithio iach. Bydd camau gweithredu hefyd yn helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethau mewn ymgyrchoedd hysbysebu a marchnata ar draws ein cymunedau, gan ganolbwyntio ar welliannau mewn cymunedau difreintiedig.

Bydd y Cynllun yn ei helpu i gyflawni pob un o'r tri o Amcanion Llesiant sydd gennym, yn enwedig Bro sy'n fwy Iach ac Egnïol a Bro sy'n fwy Cydnerth a Gwyrdd. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at waith i fynd i'r afael â thlodi bwyd ac annhegwch iechyd a chynyddu canran y bobl sydd â phwysau iach.

Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro sy'n arwain y gwaith hwn, ac mae rhagor o wybodaeth am Symud Mwy, Bwyta'n Iach ar gael ar y wefan Symud Mwy, Bwyta'n Iach.

Symud Bwyd Cwyd Eto!

## Bwyd y Fro

PARTNERIAETH YW BWYD O FRO O UNIGOLION, GRWPIAU CYMUNEDOL, SEFYDLIADAU A BUSNESAU YMRODDEDIG SY'N CYDWEITHIO I ADEILADU SYSTEM FWYD FFYNIANNUS, IACH A CHYNALIADWY YN Y FRO.

Mae'r bartneriaeth wedi nodi tri maes â blaenoriaeth er mwyn symud bwyd yn dda ym Mro Morgannwg: Pryd da o fwyd i bawb, bob dydd; Busnesau bwyd lleol ffyniannus sy'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi; a Meddwl yn fyd-eang, bwyta'n lleol.

Mae camau a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Bwyd y Fro i hyrwyddo tri maes blaenoriaeth allweddol y bartneriaeth yn cefnogi gwaith i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd, gwarchod ein hamgylchedd lleol a sicrhau bod gan bawb fynediad at fwyd da, gan helpu i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â thyfu, cynhyrchu a chaffael bwyd, diffyg diogeledd bwyd a mynediad at fwyd yn lleol. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi pob un o'n tri Amcan Llesiant.

Mae'r bartneriaeth wedi croesawu cyllid gan Lywodraeth Cymru a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r bartneriaeth a chynnal ymchwil i rai o'r bylchau o ran prosiectau sy'n mynd i'r afael â thlodi bwyd, lle mae angen mwy o wytnwch ac ar gyfer materion sy'n benodol i'r Fro wledig. Mae'r bartneriaeth hefyd yn bwriadu gwneud cais am Wobr Arian Mannau Bwyd Cynaliadwy yn 2024-25, a sicrhau ei safle fel un o ddwy yn unig yng Nghymru i dderbyn y wobr hon.

Fel rhan o'r gwaith i wella gweithgareddau diwylliannol mae cyllid hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer cynllun peilot ar gyfer llwybr bwyd yn 2023.

Ceir rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth yma.

## Peilot Prosiect Bwyd Llanilltud Fawr

NOD Y PROSIECT YW GWELLA MYNEDIAD AT FWYD A MYND I'R AFAEL Â MATERION RHYNG-GYSYLLTIEDIG YN LLANILLTUD FAWR, ARDAL WLEDIG YN Y FRO.

Mae'r partneriaid yn cydweithio i helpu pobl yn Llanilltud Fawr i gael pryd da o fwyd bob dydd drwy wella mynediad at fwyd ac ymwneud â materion eraill sy'n aml yn gysylltiedig â hynny. Mae'r partneriaid yn gweithio i gyflawni camau wedi'u cyd-gynhyrchu drwy'r prosiect sy'n seiliedig ar ymchwil, gwybodaeth gan arbenigwyr lleol a gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn sgil cais llwyddiannus i Gronfa Pobl a Lleoedd y Loteri, mae £98,702 wedi'i ddyfarnu i fwrw ymlaen â chamau i gefnogi sefydlu hwb canolog a fydd yn rhoi cyngor ac yn cyfeirio pobl i dderbyn cymorth ehangach sy'n aml yn gysylltiedig â mynediad at fwyd, ee, budd-daliadau, hawliadau, iechyd meddwl a thai, i dreialu gwasanaeth pantri bwyd symudol, ac i sefydlu ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ynghylch y gefnogaeth sydd ar gael a meithrin ysbryd cymunedol.

Bydd camau gweithredu o fewn y prosiect hwn yn ein helpu i fynd i'r afael â nifer o faterion a nodwyd yn yr asesiad lles gan gynnwys annhegwch, mynediad i wasanaethau a materion sy'n codi / gwaethygu oherwydd yr argyfwng costau byw. Bydd y gwaith hwn yn cefnogi cyflawni pob un o'r 3 Amcan, gyda'r camau'n effeithio ar Bro sy'n fwy Cyfartal a Chysylltiedig â Bro sy'n fwy Iach ac Egnïol yn enwedig. Mae'r prosiect hwn hefyd yn cyfrannu at waith i fynd i'r afael â thlodi bwyd gan gydnabod y cysylltiadau agos â iechyd a llesiant amgylcheddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect ar wefan Bwyd y Fro.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro drwy bartneriaeth Bwyd y Fro.

## Y Siarter Teithio Llesol

LANSIWYD SIARTER TEITHIO LLESOL BRO MORGANNWG YM MIS HYDREF 2019. MAE'N DOD Â'R BGC, PARTNERIAID Y SECTOR CYHOEDDUS A'R TRYDYDD SECTOR YNGHYD I DDATBLYGU YMAGWEDD TEITHIO LLESOL A CHYNALIADWY AR DRAWS BRO MORGANNWG.

Drwy'r Siarter, cytunodd sefydliadau i weithio tuag at 14 o ymrwymiadau allweddol dros dair blynedd. Mae'r ymrwymiadau'n cynnwys gwaith ar themâu fel beicio, cyfathrebu ac arweinyddiaeth a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei ddatblygu gan Grŵp Siarter Teithio Llesol y Fro. Yn dilyn y cynnydd da a wnaed gan bartneriaid tuag at gwblhau Siarter Lefel 1, datblygwyd Siarter Lefel 2 mwy heriol. Mae'r Siarter Lefel 2 yn adlewyrchu'r angen parhaus am gamau gweithredu cydgysylltiedig i gefnogi teithio iach a chynaliadwy ac mae'n cynnwys ymrwymiadau mwy ymestynnol i'w cyflawni dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r newid i ddulliau teithio dros y degawdau diwethaf wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol mewn gweithgarwch corfforol, sydd yn ei dro'n gysylltiedig â chynnydd i'r risg o salwch, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, canser a diabetes. Mae trafnidiaeth ffordd yn ffactor o bwys sy'n cyfrannu at lygredd niweidiol yn yr aer, ac mae'n gyfrifol am oddeutu 1,000 o ddamweiniau sy'n achosi anafiadau difrifol neu farwolaeth bob blwyddyn yng Nghymru. Mae nifer o'r effeithiau andwyol o ganlyniad i drafnidiaeth ar y ffordd yn cael mwy o effaith mewn cymunedau mwy difreintiedig, gan gyfrannu at wneud annhegwch iechyd yn waeth. Teimlir llawer o effeithiau andwyol trafnidiaeth ffordd i raddau mwy mewn cymunedau mwy difreintiedig, gan gyfrannu at yr anghydraddoldeb iechyd sy'n bodoli eisoes. Yn yr un modd, mae'r cynnydd mewn perchnogaeth ceir personol yn gysylltiedig â chynnydd mewn llygryddion $CO_2$. Drwy weithio i newid dulliau teithio a lleihau cyfanswm y drafnidiaeth gallwn fynd i'r afael â llawer o'r problemau hyn yn uniongyrchol. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ein Hamcani n i fod yn fwy iach ac egnïol, ac i fod yn fwy cydnerth a gwyrdd.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect ar y wefan Teithio Llesol Cymru.

## Bro Ddiogelach

MAE'R BARTNERIAETH BRO DDIOGELACH YN CYDWEITHIO I WNEUD BRO MORGANNWG YN AMGYLCHEDD MWY DIOGEL, FEL BOD PRESWYLWYR, GWEITHWYR AC YMWELWYR YN GALLU BYW'N RHYDD RHAG TROSEDD AC ANHREFN A RHAG OFN TROSEDDAU.

Mae'r Bartneriaeth yn derbyn cyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Llywodraeth Cymru i gynllunio ymatebion diogelwch cymunedol sy'n briodol i'r ardal leol.

Partneriaeth rhwng y canlynol yw Bro Ddiogelach:

- Cyngor Bro Morgannwg
- Heddlu De Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cynrychiolaeth o'r Trydydd Sector

Mae Strategaeth Diogelwch Cymunedol 2020-2023 yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, cydlyniant cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, mae'r strategaeth yn ddogfen fyw felly bydd yn ymateb yn weithredol i unrhyw faterion cymunedol eraill sydd angen sylw gan y bartneriaeth. Mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu Strategaeth newydd a fydd yn cyd-fynd ag Amcanion Llesiant a blaenoriaethau'r BGC, yn enwedig yr amcan i greu Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig.

Ceir rhagor o wybodaeth am y bartneriaeth Bro Ddiogelach yma.

## Gwirfoddoli/ Gwerth yn y Fro

SEFYDLWYD Y PROSIECT I ANNOG A CHEFNOGI GWIRFODDOLI YN Y FRO OCHR YN OCHR AG EHANGU'R CYNLLUN GWIRFODDOLI BANCIO AMSER BLAENOROL Y MAE ADRAN TAI'R CYNGOR WEDI BOD YN EI GYNNAL ERS 2018.

Yn wreiddiol, nid oedd y Cynllun Bancio Amser ond ar gael i denantiaid Cyngor y Fro, ac ar ôl gweld ei fanteision roedd y BGC wedi bod yn awyddus i'w ehangu. Yn anffodus, roedd pandemig Covid-19 wedi achosi oedi i'r gwaith, ond mae'r momentwm bellach wedi cynyddu ynghyd â dyhead i adeiladu ar y cynnydd mewn gwirfoddoli a welwyd mewn ymateb i'r pandemig.

Dyma nodau'r prosiect:

- Annog pobl i wirfoddoli, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi gwirfoddoli o'r blaen ac/neu sy'n dod o gymuned ddifreintiedig.
- Hyrwyddo a thyfu'r cynllun Bancio Amser lleol newydd 'Gwerth yn y Fro', a elwid gynt yn Amser Tyfu Ennill, ledled y Fro.

Mae'r gwaith hwn yn helpu i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldebau yn ein cymunedau drwy ganolbwyntio ar rai o gymunedau difreintiedig ac ar fanteision hysbys gwirfoddoli, gan gynnwys cynyddu hyder, dysgu sgiliau newydd, gwella llesiant ac ehangu'r posibilrwydd am swydd. Defnyddiwyd cyllid o Gronfa'r Blynyddoedd Cynnar ac Atal Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi datblygiad y prosiect hwn.

Bydd y camau hyn yn helpu i gyflawni pob un o'r 3 Amcan drwy gynnig cyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd, drwy'r canlyniadau cadarnhaol, corfforol a meddyliol posibl yn sgil gwirfoddoli, a thrwy helpu pobl i deimlo mwy o gysylltiad â gwirfoddolwyr eraill a'r cymunedau y maent yn gwirfoddoli ynddynt. Bydd y gwaith hwn yn helpu i gefnogi'r trydydd sector ac yn hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli drwy gydnabod y manteision lluosog i unigolion a'n cymunedau.

Ceir rhagor o wybodaeth yma.

Cyngor Bro Morgannwg sy'n arwain gwaith datblygu Gwerth yn y Fro. Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Bro Morgannwg hefyd yn parhau i ehangu eu gwasanaethau, ac mae rhagor o wybodaeth am wirfoddoli yn y Fro ar gael ar wefan GGBM.



## Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

MAE PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD (PRC) YN CYNNWYS Y 10 ARDAL AWDURDOD LLEOL YN NE DDWYRAIN CYMRU: BRO MORGANNWG, BLAENAU GWENT, PEN-Y-BONT AR OGWR, CAERFFILI, CAERDYDD, MERTHYR TUDFUL, SIR FYNWY, CASNEWYDD, RHONDDA CYNON TAF A THORFAEN.

Mae PRC yn gweithio i drawsnewid yr economi, y tirlun busnes a'r potensial am ffyniant cynhwysol ar dras De Ddwyrain Cymru. Rhaglen gydweithredol yw'r Fargen Ddinesig sydd wedi ymrwymo i fod yn gatalydd ar gyfer llwyddiant cynaliadwy ar draws y rhanbarth, a'i nod yw gwneud gwahaniaeth drwy:

- Feithrin economi gynhwysol lle nad oes neb wedi'i adael ar ôl
- Meithrin ac ysbrydoli arloesedd yn ein busnesau, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomïau sylfaenol
- Paru ein huchelgeisiau economaidd â pholisïau cymdeithasol blaengar

Gyda ffocws cryf ar ynni a'r amgylchedd a rhaglenni gwaith allweddol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, cyflogaeth a sgiliau, bydd PRC yn cyfrannu at yr Amcanion o greu Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd a Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig. Yn benodol, mae'r cynigion ynni ar gyfer y safle yn Aberddawan yn gyfle mawr i'r Fro.

Ceir rhagor o wybodaeth am Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yma.

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro

MAE'R BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL (BPRH) YN CYNNWYS CYNGOR BRO MORGANNWG, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO, CYNGOR CAERDYDD, YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU, Y TRYDYDD SECTOR A'R SECTOR ANNIBYNNOL A CHYNRYCHIOLWYR GOFALWYR.

Nod y BPRh yw gwella iechyd a llesiant y boblogaeth a gwella'r modd y darparir gwasanaethau iechyd a gofal, drwy sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, yn y lleoliad cywir.

Cafodd y BPRh ei sefydlu yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sicrhau bod byrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau, gofal a chymorth sy'n bodloni anghenion pobl sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro. Mae'r BPRh yn cynnal Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth (AAB) yn rheolaidd i sicrhau bod pobl yn derbyn y cymorth cywir, ar yr adeg gywir, yn y lleoliad cywir. Mae'r BPRh yn defnyddio'r AAB yn sail ar gyfer ei waith ac er mwyn integreiddio gwasanaethau yn y ffordd orau i:

- Bobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl ag anableddau dysgu
- Gofalwyr di-dâl, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch

Bydd gwaith y BPRh a'i flaenoriaethau i Ddechrau'n Dda, Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda yn cyd-fynd â gwaith y BGC, ac yn cyfrannu at gyflawni pob un o'r 3 Amcan Llesiant.

Ceir rhagor o wybodaeth am BPRh yma.

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

## Rheoli Asedau

MAE PARTNERIAID AR DRAWS Y BGC YN GWEITHIO GYDA'I GILYDD I GYNORTHWYO'R GWAITH O DDATBLYGU DULL INTEGREDIG YNGLŶN Â'R YSTAD SECTOR CYHOEDDUS YN SEILIEDIG AR DDEALLTWRIAETH A RENNIR O FATERION YSTADAU CYFREDOL AR DRAWS Y SECTOR CYHOEDDUS.

Mae'r gwaith yn cynorthwyo'r ymdrech i ddarparu gwasanaethau'n well a nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio / cydgysylltu sy'n cwmpasu adeiladau a daliadau tir y partneriaid sy'n aelodau o'r BGC.

Mae Grŵp Newid Hinsawdd a Rheoli Asedau y BGC yn cydweithio i gyflawni'r ymrwymiadau yn y Siarter Argyfwng Hinsawdd ond hefyd i ystyried materion strategol ar draws ystâd y sector cyhoeddus. Ceir nifer o enghreifftiau o gydleoli gwasanaethau ar draws Bro Morgannwg a bydd y gwaith hwn yn parhau â'r gwaith sy'n cael ei wneud ar sail ranbarthol (drwy grŵp rhanbarthol Ystadau Cymru Caerdydd a'r Fro).

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant o greu Bro sy'n fwy cydnerth a gwyrdd a Bro sy'n fwy cyfartal a chysylltiedig. Bydd gwaith y grŵp hwn yn helpu i wella mynediad at wasanaethau, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned a Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg, gan sicrhau bod y dysg a'r mewnwelediad a rennir hefyd o fudd i sectorau eraill.

**Mae'r prosiectau a'r partneriaethau a nodir uchod yn dangos yr ystod o weithgareddau a fydd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant y BGC, y pwyslais ar integreiddio a chydweithio a sut y gall y BGC gefnogi ystod eang o weithgarwch ar draws y Fro.**

Our Vale • Ein Bro

Vale of Glamorgan
Public Services Board
Bwrdd Gwasanaethau
Cyhoeddus Bro Morgannwg

www.valepsb.wales